

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO	PLANNING POLICY COMMITTEE
DYDD MERCHER, 11 CHWEFROR 2026 am 2.00 o'r gloch yp	WEDNESDAY, 11 FEBRUARY, 2026 at 2.00 pm
CYFARFOD HYBRID - YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	HYBRID MEETING – COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Mrs Mairwen Hughes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Y Grwp Annibynnol/The Independent Group

Ieuan Williams (Cadeirydd/Chair)

Plaid Lafur / Wales Labour Party

Pip O'Neill

Plaid Cymru / The Party of Wales

John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts, Ken Taylor (**Is-gadeirydd/Vice-Chair**), Robin Williams

Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents

Jeff Evans, Kenneth P Hughes, Robert LI Jones

Nodwch os gwelwch yn dda bod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 COFNODION (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2026.

4 PAPUR YMGYNGHORI GWELEDIGAETH, AMCANION AC OPSIYNAU (Tudalennau 7 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

5 ASESIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG (ACI) (Tudalennau 81 - 146)

Cyflwyno adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ACI).

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2026

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ken Taylor (Is-gadeirydd yn y Gadair)

Y Cynghorwyr Jeff M Evans, Kenneth P Hughes, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Jackie Lewis (gadawodd y cyfarfod am 2.45pm), Pip O'Neill, Llio Angharad Owen a Nicola Roberts

WRTH LAW: Uwch Swyddog Cynllunio (DFJ),
Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio (LW),
Swyddog Polisi (AL),
Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff/Rheolwr Cynllunio (RW),
Swyddog Pwyllgorau (MEH),
Swyddog Gweddarlledu'r Gwasanaeth Pwyllgorau (FT)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Ieuan Williams a Robin W Williams

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodir uchod.

2 DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2025 yn gywir.

4 CYFLWYNO'R GOFRESTR SAFLEOEDD POSIB

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio y bydd y Galwad am Safleoedd yn helpu i adnabod tir addas er mwyn bodloni gofynion tai, cyflogaeth a seilwaith yn y dyfodol ac fel rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth gynnar a pharatoi'r cynllun. Cynhaliodd y Cyngor broses Galw am Safleoedd Posib am gyfnod o chwe wythnos yn y lle cyntaf rhwng 12 Mai 2025 a 23 Mehefin, 2025. Cafodd y cyfnod hwn ei ymestyn am chwe wythnos arall gan ddod i ben ar 4 Awst, 2025. Yn dilyn y broses ddilysu, derbyniwyd cyfanswm o 312 o safleoedd gan ddefnyddwyr unigol, gan gynrychioli ystod o ddefnyddiau tir. Bydd y Gofrestr yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor er mwyn sicrhau tryloywder a bydd hefyd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r cam nesaf yn y broses yn cynnwys asesu'r holl Safleoedd Posib.

Dywedodd y Cynghorydd Llio Angharad Owen bod safle yn ei Ward hi sydd wedi cael ei gyflwyno ar gyfer datblygiad preswyl ac ynni adnewyddadwy. Nododd hefyd bod maint y ddau safle'n wahanol. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio ei bod hi'n bosib bod y perchennog/asiant wedi cyflwyno gwahanol opsiynau ar gyfer y safle.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts bod angen nodi rhai o'r pentrefi ar y Gofrestr Safleoedd Posib fel bod y cyhoedd yn ymwybodol o leoliad y safleoedd posib.

Roedd y Cynghorydd Pip O'Neill yn dymuno cael gwybod faint o safleoedd oedd wedi cael eu cynnig ar gyfer eu gwarchod a'r amserlen ar gyfer hidlo'r safleoedd hyn. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod 6 o safleoedd wedi cael eu cynnig ar gyfer eu gwarchod. Nododd y bydd y broses asesu a hidlo'n cael ei chwblhau a bod y 6 safle dan sylw ar y Gofrestr Safleoedd Posib ar hyn o bryd. Cafodd y cyfnod ar gyfer cyflwyno safleoedd ei ymestyn i 12 wythnos. Fodd bynnag, pe byddai safleoedd ychwanegol yn cael eu cynnig, byddant yn cael eu hystyried.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Gofrestr Safleoedd Posib ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn.

5 PAPUR PWNC STRATEGAETH ANEDDLEOEDD DRAFFT

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio bod yr adroddiad yn nodi'r gofyniad polisi i sefydlu hierarchaeth aneddleoedd fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol sy'n hanfodol er mwyn nodi'r gwahanol aneddleoedd sydd â'r potensial i dderbyn twf yn y dyfodol yn nhermau eu lleoliad, eu rôl a'u swyddogaeth. Mae hyn yn golygu asesu rôl a swyddogaeth bresennol aneddleoedd, yn ogystal â deall y berthynas rhwng aneddleoedd. Mae'r papur pwnc yn ceisio asesu rôl aneddleoedd o fewn Ardal y Cynllun ac yna eu grwpio o dan wahanol haenau/fathau yn ôl eu rôl a'u swyddogaeth. Mae'r haenau a nodir yn yr hierarchaeth aneddleoedd fel a ganlyn:-

- Canolfannau Gwasanaeth Isranbarthol
- Canolfannau Gwasanaeth Trefol
- Canolfannau Gwasanaeth Lleol
- Pentrefi
- Clystyrau
- Aneddleoedd Gwledig Anniffiniedig

Yn seiliedig ar y sgôr ar gyfer pob anheddiad a aseswyd, cafodd pob anheddiad ei grwpio mewn gwahanol haenau ar sail ei rôl a'i swyddogaeth. Mae'r rhan fwyaf wedi aros o fewn eu haenau cymharol fel y cawsant eu categorïddio yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Pan fo aneddleoedd wedi'u huwchraddio i haen uwch, mae'n golygu bod y gwasanaethau a'r cyfleusterau (fel y nodwyd yn y fethodoleg asesu) sydd ar gael yn yr aneddleoedd hynny wedi cynyddu mewn nifer/argaeledd ers y sefyllfa yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. I'r gwrthwyneb, lle mae aneddleoedd wedi'u hisraddio i haen is, mae argaeledd/nifer y cyfleusterau/gwasanaethau hynny wedi lleihau. Mae'r aneddleoedd canlynol wedi cael eu hailddosbarthu i adlewyrchu canlyniadau'r fethodoleg sgorio a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad hwn:-

- Mae Caergybi wedi cael ei ail-gategorïddio fel Canolfan Isranbarthol;
- Mae Porthaethwy wedi cael ei uwchraddio o Ganolfan Gwasanaeth Lleol i Ganolfan Gwasanaeth Trefol;
- Mae Brynsiencyn a Phenysarn wedi cael eu huwchraddio o Bentrefi Lleol i Bentrefi Gwasanaeth;
- Mae Niwbwrch wedi cael ei israddio o Bentref Gwasanaeth i Bentref Lleol;
- Mae Pentre Canol, Pentre Berw a Rhostrehwfa wedi cael eu huwchraddio o Glystyrau o Bentrefi Lleol;

- Mae Llanrhuddlad, Pencaernisiog, Carreglefn, Llanfaethlu, Llanddona a Llanbedrgoch wedi cael eu hisraddio o Bentrefi i Glystrau.

Dywedodd y Cynghorydd Kenneth P Hughes bod pob rhan o Ynys Môn yn wledig fwy neu lai a bod Polisi Cynllunio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu yn erbyn ardaloedd gwledig. Cynigodd y Cynghorydd Hughes bod y Pwyllgor yn anfon llythyr at Lywodraeth Cymru'n nodi bod y Polisi Cynllunio Cynaliadwy cyfredol yn gwahaniaethu yn erbyn ardaloedd gwledig a'i fod yn rhwystr wrth geisio sefydlu Cynllun Datblygu Lleol sy'n darparu ar gyfer anghenion Ynys Môn.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod rhaid i ddatblygiadau yng Nghymru fod yn gynaliadwy a bod yn rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd fynd i'r afael â Pholisïau Cynllunio Cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd adlewyrchu'r gwasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau.

Dywedodd yr Is-gadeirydd bod yn rhaid cofio bod Etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal fis Mai a'i bod hi'n bosib na fydd y cwestiwn hwn yn cael ei ateb. Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts y dylai'r mater hwn gael ei drafod gyda'r Arweinyddion Grŵp yn gyntaf.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts y dylid cynnwys Canolfan Addysg y Bont, Llangefni yn y strategaeth sgorio aneddeleoedd gan fod yr ysgolion Cynradd ac Uwchradd wedi cael eu cynnwys.

Dywedodd y Cynghorydd Robert LI Jones y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Môn ganolbwyntio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio y bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn diwallu anghenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o'r broses o sefydlu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ynys Môn.

PENDERFYNWYD :-

- **cymeradwyo'r Papur Pwnc Strategaeth Aneddeleoedd drafft fel sail ar gyfer yr Hierarchaeth Aneddeleoedd a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn.**
- **ychwanegu Canolfan Addysg y Bont i broses sgorio'r strategaeth aneddeleoedd.**

6 PAPUR PWNC GWASTRAFF

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio bod yr adroddiad yn egluro cyd-destun y polisi ar gyfer cynllunio gwastraff, a'i fod yn rhestru'r hierarchaeth o ddogfennau polisi a gofynion statudol cenedlaethol sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau cynllunio gwastraff cynaliadwy. Mae'r adroddiad yn amlygu dau faes sy'n peri pryder lle dylid gwneud darpariaeth i sicrhau bod cyfraddau uchel parhaus o ailddefnyddio ac ailgylchu. Mae'r diffygion yn y ddarpariaeth yn ymwneud â chryfhau'r gefnogaeth ar gyfer ailgylchu deunydd adeiladu a dymchwel ac agregau eilaidd a darparu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref ar gyfer Ynys Cybi/Caergybi a Gogledd Ynys Môn/Amlwch naill ai drwy ddyrannu safleoedd priodol neu drwy ddatblygu polisi sy'n galluogi datblygu safleoedd o'r fath ar dir cyflogaeth pe bai diffyg safleoedd ar gael i'w dyrannu.

PENDERFYNWYD cefnogi canfyddiadau'r Papur Pwnc Gwastraff a chymeradwyo Opsiwn B (Gwella Polisi), fel y nodir yn yr adroddiad, fel y dull a ffeirir ar gyfer datblygu polisiâu rheoli gwastraff o fewn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

PAPUR PWNC - MWYNAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio bod yr adroddiad yn crynhoi cynnwys y papur pwnc ar fwynau sy'n cefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn a mynd i'r afael â'r gofyniad i gynnal banc tir am isafswm o 10 mlynedd. Nododd bod daeareg Ynys Môn yn amrywiol iawn, ac mae hyn yn arwain at amrywiaeth eang o fwynau'n cael eu cynhyrchu. Mae'r adroddiad yn amlygu'r diffygion posib pe byddai prosiectau seilwaith ac adeiladu mawr yn digwydd ar yr Ynys.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ynghyd â chanfyddiadau'r papur pwnc a'i gymeradwyo fel sail ar gyfer datblygu polisi cynllunio mwynau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

8 CANLYNIADAU'R ASTUDIAETH MANWERTHU AC ARGYMHELLION AR GYFER Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio bod yr adroddiad yn darparu asesiad mwy diweddar ar yr angen manwerthu yn Ynys Môn, ac mai ei fwriad yw dylanwadu ar y Cynllun Datblygu Lleol drafft, 2024 i 2039. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y 10 canolfan manwerthu fel a ganlyn:-

- Canolfannau manwerthu trefol: Caergybi a Llangefni
- Canolfannau manwerthu lleol: Amlwch, Benllech, Biwmares, Llanfairpwll, Porthaethwy a'r Fali.
- Canolfannau Lleol Bach: Cemaes, Gaerwen a Rhosneigr

Mae'r astudiaeth yn amlinellu tueddiadau economaidd ac yn y farchnad genedlaethol, a sut mae'r rhain yn cael dylanwad ar ganolfannau Ynys Môn. Mae'r astudiaeth hefyd yn asesu ymddygiadau siopa cyfredol ac yn rhagweld sut all hyn newid yn y dyfodol. Mae'r casgliadau'n nodi nad oes angen mesuroi am leoliadau manwerthu cymharol neu gyfleuster yn y Cynllun. Mae'r astudiaeth yn argymhell amrywio hyfywedd a chynaliadwyedd y canolfannau hyn ac adolygu'r ffiniau i adlewyrchu'r patrymau manwerthu yn yr ardaloedd hyn. Mae'r astudiaeth hefyd yn nodi bod angen annog defnydd cymysg o'r canolfannau hyn e.e. defnydd hamdden.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jeff Evans at yr her sy'n wynebu canol trefi a'i bod hi'n anodd iddynt gystadlu â chyfleusterau siopa ar gyrion trefi. Nododd y dylid mynd i'r afael ag anghenion y bobl sy'n dewis cefnogi'r stryd fawr a chynnig amrywiaeth o siopau a chyfleusterau parcio am ddim er mwyn denu pobl yn ôl i ganol trefi.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio bod yr arolwg yn amlygu'r tueddiadau siopa ar yr Ynys. Mae'r arolwg hefyd yn nodi y bydd canolfannau siopa defnydd cymysg yn cael eu hannog wrth ddatblygu polisiâu cynllunio fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John Ifan Jones at y cynnydd mewn Neuaddau Bwyd ledled y DU ac awgrymodd y dylid ystyried Neuaddau Bwyd o'r fath ar gyfer canolfannau siopa'r Ynys.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio y bydd angen amrywio'r cyfleusterau sydd ar gael mewn canolfannau siopa ledled yr Ynys. Bydd rhaid i bolisiâu cynllunio fod yn hyblyg yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â phrosiectau o'r fath mewn canol trefi.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel sylfaen ar gyfer drafftio polisiâu yn y Strategaeth a ffefrir.

9 DYDDIADAU CYFARFODYDD

Adroddodd y Prif Swyddog Cynllunio ei fod yn awgrymu bod y Pwyllgor yn cwrdd yn chwarterol fel a ganlyn:-

- Mai/Mehefin 2026
- Medi 2026
- Rhagfyr 2026
- Mawrth 2027

Bydd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu trefnu pe bai angen i'r Pwyllgor drafod a chymeradwyo unrhyw faterion brys.

PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen cyfarfodydd fel y nodir uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05 pm

**Y CYNGHORYDD KEN TAYLOR
IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Polisi Cynllunio
Dyddiad:	11eg Chwefror 2026
Pwnc:	Papur Ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau Drafft
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur y Papur:	Lowri Williams (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio)
Ffôn:	
E-bost:	Lowriwilliams3@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Mae'n berthnasol i bob Aelod Lleol

1.0 Pwrpas y Papur ac Argymhellion

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw cael barn a chyfraniad Aelodau'r Pwyllgor ar y Papur Ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau Drafft ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn.

1.2 Argymhellir bod y Pwyllgor yn:

- a) Ystyried y diwygiadau angenrheidiol i'r Papur Ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau Drafft a'u cymeradwyo;
- b) Cefnogi paratoi drafft terfynol o'r Papur Ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau;
- c) Cefnogi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o bum wythnos;

a


ch) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cynllunio (mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio) i wneud unrhyw fân addasiadau er cywirdeb cyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'n rhaid i bob Cyngor yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn ddogfen a fydd yn llywio datblygiadau dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd y CDLI newydd yn disodli'r Cynllun Datblygu

Lleol ar y Cyd (a fabwysiadwyd yn 2017), a baratowyd ar y cyd â Gwynedd. Unwaith y bydd y Cynllun wedi cael ei fabwysiadu, bydd pob cais cynllunio a gyflwynir i'r Cyngor yn cael ei asesu yn erbyn y polisiau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun newydd.

- 2.2 Bydd y CDLI yn cael ei baratoi o'r newydd, a bydd cyfle i bobl gael dweud eu dweud yn ystod pob cam allweddol. Mae'r diagram isod yn nodi'r prif gamau:



- 2.3 Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod pawb sy'n byw, gweithio neu ymweld ag Ynys Môn yn cael dweud eu dweud ar ddyfodol yr Ynys.
- 2.4 Mae'r cam hwn yn cynrychioli'r ymgynghoriad sylweddol cyntaf wrth baratoi'r CDLI newydd a'i fwriad yw:
- Nodi'r prif faterion cynllunio, yr heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan yr Ynys
 - Sefydlu Gweledigaeth ac Amcanion Strategol drafft
 - Cyflwyno opsiynau ar gyfer twf a dosbarthiad gofodol datblygiadau
 - Ceisio ymgysylltu'n gynnar er mwyn llywio'r cam nesaf, y Strategaeth a Ffeirir
- 2.5 Mae gofyniad statudol i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (a39 (2) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol 5(2) a 5(4) yn y drefn honno). Mae'r gofyniad statudol i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd, yn cynnwys asesiad Amgylcheddol Strategol, yn darparu tystiolaeth a sail resymegol dros ddewisiadau gofodol a pholisi, a dylid gwahodd y gymuned a rhanddeiliaid i gymryd rhan ym mhob cam o'r broses.
- 2.6 Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (a fydd yn cynnwys asesiadau eraill megis Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac asesiad iaith Gymraeg, yn ogystal â mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru 2016 (Adran 6)).
- 2.8 Er mwyn sicrhau bod y broses Arfarnu Cynaliadwyedd mor effeithiol â phosib mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi cael ei baratoi. Mae'r adroddiad cychwynnol ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn dadansoddi amcanion y CDLI a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig i weld a ydynt yn gydnaws, yn ogystal ag arfarnu'r senarios o ran twf ac opsiynau gofodol sydd dan ystyriaeth.

Bydd yr adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei gyhoeddi am sylwadau ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau.

3.0 Y Papur Ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau;

3.1 Dyma'r ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol cyntaf fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn. Y nod yw ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid a llunio cyfarwyddyd hirdymor y Cynllun drwy nodi'r prif faterion, heriau a chyfleoedd y mae'r Ynys yn eu hwynebu, gan gynnig gweledigaeth ac amcanion drafft, ac ystyried opsiynau twf a gofodol amgen. Bydd yr adborth a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Strategaeth a Ffefrir, a fydd yn sefydlu fframwaith strategol ar gyfer defnydd tir a datblygu dros gyfnod y Cynllun newydd, sef 15 mlynedd.

3.2 At ei gilydd, mae'r papur Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau yn:-

- Nodi'r cyd-destun o ran polisiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol (yn cynnwys Cynllun y Cyngor 2023-28)
- Disgrifio nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Ynys Môn
- Nodi'r prif faterion o dan y themâu canlynol:
 - *Economi gynaliadwy a llewyrchus*
 - *Sicrhau mynediad at gartrefi addas*
 - *Seilwaith i gefnogi uchelgeisiau twf - ymateb i newid hinsawdd*
 - *Gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig - gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a rheoli adnoddau*
 - *Hyrwyddo creu lleoedd a llesiant*

3.3 Mae'r ddogfen yn cynnig:

- *Gweledigaeth drafft ar gyfer dyfodol Ynys Môn - sy'n nodi sut y bydd Ynys Môn yn edrych erbyn 2039 - gan ganolbwyntio ar gymunedau cadarn, economi wydn, gwarchod yr amgylchedd, cefnogi'r Gymraeg a thwf cynaliadwy drwy greu aneddeleoedd a seilwaith allweddol.*
- *18 o Amcanion Strategol drafft - mae'r amcanion wedi cael eu datblygu yn seiliedig ar y prif faterion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n effeithio ar Ynys Môn. Mae'r amcanion yn cysylltu'r CDLI â'r nodau ac amcanion cenedlaethol, ac yn gosod fframwaith ar gyfer datblygu polisiau'r CDLI.*
- *Cyfarwyddiadau clir ar gyfer pob thema a nodir - mae'r bennod yn egluro'r dull ehangach ar gyfer pob maes polisi (e.e. yr economi, tai, hinsawdd, seilwaith), yn cynnwys beth fydd yn wahanol yn y*

cynllun newydd a'r dystiolaeth fydd ei hangen. Maent yn gosod y trywydd cyn i'r polisiau manwl gael eu hysgrifennu.

- Gwahanol senarios ar gyfer tai a thwf economaidd - caiff y rhain eu cyflwyno fel cyfres o wahanol opsiynau ar gyfer y twf tai ac economaidd y dylid cynllunio ar ei gyfer ar yr Ynys, yn seiliedig ar dueddiadau o ran y boblogaeth, rhagolygon economaidd a phrosiectau mawr megis Wylfa a'r Porthladd Rhydd.*
- Opsiynau amgen ar gyfer y strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu datblygiadau - mae'r rhain yn cael eu cyflwyno yn ôl y gwahanol ffyrdd y gellir dosbarthu datblygiadau ar draws yr Ynys (e.e. mwy o ffocws ar brif ganolfannau, mwy gwasgaredig a mwy cytbwys), er mwyn gweld pa batrwm twf sydd fwyaf cynaliadwy, realistig ac ymarferol.*

3.4 Nid yw'r ddogfen hon yn gosod polisiau na'n dyrannu safleoedd. Y nod yw gwahodd sylwadau a rhoi cynnig ar wahanol ddulliau cyn i'r Cyngor fynd ati i baratoi'r Strategaeth a Ffeirir.

4.0 Y Trefniadau ar gyfer yr Ymgynghoriad a'r Camau Nesaf

4.1 Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor, bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid am gyfnod o bum wythnos (16 Chwefror 2026 - 20 Mawrth 2026).

4.2 Bydd y gwaith ymgysylltu yn cynnwys:

- Porth ar wefan y Cyngor ar gyfer yr ymgynghoriad
- Copïau papur ym mhob llyfrgell gyhoeddus ar yr Ynys, ynghyd â phencadlys y Cyngor a Chanolfan Fusnes Ynys Môn
- Bydd negeseuon hefyd yn cael eu rhannu'n rheolaidd ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor

4.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y swyddogion yn dadansoddi'r ymatebion a pharatoi adroddiad pellach i'r Pwyllgor gan grynhoi:

- Y prif faterion a godwyd
- Y goblygiadau ar y Cynllun newydd
- Argymhellion o ran y ffordd ymlaen

4.4 Fel y nodwyd uchod, bydd y cam hwn yn llywio'r gwaith o baratoi fersiwn drafft o'r Strategaeth a Ffeirir.

5.0 Atodiadau

- 5.1 **Atodiad 1:** Cynllun Datblygu Leol Ynys Môn - Dogfen Ymgynghori drafft ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau
- 5.2 **Atodiad 2:** Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drafft i gyd-fynd â'r Ddogfen Ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau.

This page is intentionally left blank



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

ynysmon.llyw.cymru
anglesey.gov.wales

Ymgynghoriad ar Weledigaeth, Amcanion ac Opsiyonau

Chwefror 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg
This document is also available in Welsh.



Anglesey County Council



angleseycouncil



angleseycouncil



angleseycouncil

CYNNWYS

Pennod 1

Trosolwg a phwrpas

- 1.1 Beth yw Cynllun Datblygu Lleol
- 1.2 Sut mae'r CDLI yn cael ei baratoi?
- 1.3 Beth yw'r cam hwn?

Pennod 2

Cyd-destun Polisi Strategol

- 2.1 Cyd-destun cenedlaethol
- 2.2 Cyd-destun Rhanbarthol
- 2.3 Cyd-destun Lleol

Pennod 3

Ynys Môn yn ei chyd-destun

- 3.1 Lleoliad a Thopograffeg
- 3.2 Aneddiadau a lleoedd allweddol
- 3.3 Yr Amgylchedd
- 3.4 Mynediad a Thrafnidiaeth
- 3.5 Poblogaeth a demograffeg
- 3.6 Yr Iaith Gymraeg
- 3.7 Economi

Pennod 4

Materion, heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Ynys Môn

- 4.1 Thema: Cefnogi Economi Gynaliadwy a Bywiog
- 4.2 Thema: Sicrhau mynediad at Gartrefi addas
- 4.4 Thema: Darparu Seilwaith i Gefnogi Dyheadau Twf
- 4.5 Thema: Ymateb i Hinsawdd sy'n Newid
- 4.6 Thema: Diogelu a Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant
- 4.7 Thema: Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol a Rheoli Adnoddau
- 4.8 Thema: Hyrwyddo Creu Lleoedd a Lles

Pennod 5

Gweledigaeth

Pennod 6

Amcanion

- 6.1 Thema: Cefnogi Economi Gynaliadwy a Bywiog
- 6.2 Thema: Sicrhau mynediad at Gartrefi addas

- 6.3 Thema: Seilwaith i gefnogi uchelgeisiau
- 6.4 Thema: Ymateb i Hinsawdd sy'n Newid
- 6.5 Thema: Diogelu a Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant
- 6.6 Thema: Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol a Rheoli Adnoddau

Pennod 7

Cyfeiriad Polisi Arfaethedig

- 7.1 Thema: Cefnogi Economi Gynaliadwy a Bywiog
- 7.2 Thema: Sicrhau mynediad at Gartrefi addas
- 7.3 Thema: Seilwaith i gefnogi uchelgeisiau twf
- 7.4 Thema: Ymateb i Hinsawdd sy'n Newid
- 7.5 Thema: Diogelu a Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant
- 7.6 Thema: Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol a Rheoli Adnoddau
- 7.7 Thema: Hyrwyddo Creu Lleoedd a Lles

Pennod 8

Senarios Twf Tai a Chyflogaeth

- 8.1 Targedau blaenorol (Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd)
- 8.2 Tueddiadau demograffig
- 8.3 Tueddiadau economaidd
- 8.4 Senarios arfaethedig
- 8.5 Ystyriaethau cyflenwi

Pennod 9

Opsiynau Gofodol

- 9.1 Opsiynau arfaethedig
- Opsiwn Gofodol A: Canolbwyntio ar aneddiadau allweddol
- Opsiwn Gofodol B: Datblygiad Gwasgaredig
- Opsiwn Gofodol C: Ffocws ar Goridorau Trafnidiaeth

Pennod 1

Trosolwg a phwrpas


1.1 Beth yw Cynllun Datblygu Lleol

1.1.1 Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru lunio Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol neu'r CDLI yn ddogfen sy'n llywio datblygiad dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd y CDLI newydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol (a fabwysiadwyd yn 2017) a baratowyd gyda Gwynedd. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd yr holl geisiadau cynllunio a gyflwynir i'r Cyngor yn cael eu hasesu yn erbyn y polisïau yn y Cynllun.

1.2 Sut mae'r CDLI yn cael ei baratoi?

1.2.1 Bydd y CDLI newydd yn cael ei baratoi yn unol â [Chytundeb Cyflawni'r](#) Cyngor, y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r CDLI, a hefyd y dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfranogiad y gymuned.

1.2.2 Mae'r CDLI yn cael ei baratoi'n iteraidd, gyda chyfle i bobl roi sylwadau ar bob cam allweddol. Mae'r diagram isod yn dangos y camau cynhyrchu allweddol:



Ffigwr 1: Camau Cynhyrchu yr CDLI

1.2.3 Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod pawb sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld ag Ynys Môn yn cael llais yn natblygiad yr Ynys yn y dyfodol.

1.3 Beth yw'r cam hwn?

1.3.1 Dyma'r papur ymgynghori ar y Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio mewnbwn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid i'r gwaith cychwynnol o gwmpasu'r CDLI newydd.

1.3.2 Nod yr ymgynghoriad yw

- sicrhau ein bod wedi nodi'r holl faterion, heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Ynys Môn
- ceisio cefnogaeth i'r weledigaeth a'r amcanion drafft
- gofyn am adborth ar yr opsiynau twf posibl

- gofyn am adborth ar yr opsiynau gofodol posibl

1.3.3 Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, bydd y Cyngor yn ystyried yr holl ymatebion ac yn paratoi dogfen "Strategaeth a Ffefrir". Bydd y Strategaeth a Ffefrir wedyn yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori arni.

Pennod 2

Cyd-destun Polisi Strategol

2.0 Cyflwyniad

Nid yw'r CDLI yn cael ei baratoi mewn gwaggle, rhaid i'r Cynllun ymateb i'r cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n cael ei grynhoi'n fyr isod.

2.1 Cyd-destun cenedlaethol

- 2.1.1 Mae [Deddf Cynllunio \(Cymru\) 2015](#) yn darparu'r sylfaen ar gyfer system gynllunio symlach ac effeithiol yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy wella cysondeb penderfyniadau cynllunio ar lefel leol a chenedlaethol, a sicrhau bod cynllunio'n cyfrannu at nodau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd hirdymor.
- 2.1.2 Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried goblygiadau hirdymor eu penderfyniadau. Drwy fynnu bod y camau a gymerir heddiw yn cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol, nod y Ddeddf yw creu Cymru fwy cynaliadwy, ffyniannus a gwydn, gan gydbwyso anghenion y presennol â chadw adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 2.1.3 Mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn nodi fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Ei brif nod yw gwella cydnherthedd amgylcheddol ar yr un pryd â chefnogi llesiant cymdeithasol, economaidd ac ecolegol Cymru. Mae'r Ddeddf hon yn sicrhau bod penderfyniadau datblygu ac arferion rheoli adnoddau yn cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd, gan ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- 2.1.4 Mae [Polisi Cynllunio Cymru](#) (PCC) yn amlinellu polisiau ac egwyddorion cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan lywio defnydd tir, datblygiadau a phenderfyniadau cynllunio ledled y wlad. PCC sy'n darparu'r fframwaith polisi trosfwaol ar gyfer awdurdodau cynllunio, gan sicrhau bod datblygiadau yn cyfrannu at greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol,
- 2.1.5 Mae [Nodiadau Cyngor Technegol](#) (TANs) yn ddogfennau cyfarwyddyd manwl a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu Polisi Cynllunio Cymru. Mae'r nodiadau hyn yn rhoi cyngor ymarferol ar bynciau cynllunio penodol fel tai, trafndiaeth a'r amgylchedd.
- 2.1.6 Mae [Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol](#) 2040 yn fframwaith datblygu strategol i Gymru, gan arwain twf cynaliadwy, datblygu seilwaith, a diogelu'r amgylchedd hyd at 2040. Mae'n siapio penderfyniadau cynllunio rhanbarthol a lleol drwy sefydlu gweledigaeth ar gyfer datblygiad Cymru yn y dyfodol a sicrhau

bod twf yn cael ei gydbwyso â diogelu adnoddau naturiol ac anghenion cymunedau.

- 2.1.7 Mae'r [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu](#) yn rhoi canllawiau manwl i awdurdodau lleol Cymru ar baratoi a rheoli Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'n sicrhau bod cynlluniau'n cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol, fel y rhai a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar draws pob ardal yng Nghymru. Drwy roi arweiniad i awdurdodau lleol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, mae'r Llawlyfr yn helpu i sicrhau bod y broses cynllunio'n cefnogi datblygu cydlynol a chynaliadwy ledled y wlad.

2.2 Cyd-destun Rhanbarthol

- 2.2.1 Mae [Uchelgais Gogledd Cymru](#) yn paratoi Cynllun Datblygu Strategol (SDP). Mae'r Cynllun Datblygu Strategol yn fframwaith cynhwysfawr sydd wedi'i ddylunio i sbarduno twf economaidd, buddsoddi mewn seilwaith, a datblygu cynaliadwy ar draws Gogledd Cymru. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar roi hwb i economi'r rhanbarth drwy greu cyfleoedd newydd, gwella diwydiannau presennol, a datblygu seilwaith hanfodol. Drwy gysoni datblygu rhanbarthol â nodau cynaliadwyedd, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn sicrhau bod twf o fudd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gan greu Gogledd Cymru gydnherth a ffyniannus.
- 2.2.2 Mae'r [Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol](#) yn amlinellu'r blaenoriaethau trafndiaeth allweddol a'r strategaethau buddsoddi ar gyfer Gogledd Cymru. Mae'n canolbwyntio ar wella cysylltedd, gwella seilwaith trafndiaeth, a chefnogi twf economaidd rhanbarthol. Mae'r cynllun yn cynnwys mentrau i wella rhwydweithiau ffyrdd, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan sicrhau bod cymunedau wedi'u cysylltu'n well a'u bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd economaidd.
- 2.2.3 Mae'r [Gweithgor Agregau Rhanbarthol](#) (RAWP) yn chwarae rhan hollbwysig wrth gydlynu'r gwaith o gyflenwi a rheoli agregau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Ei brif nod yw bodloni galw'r sector adeiladu am agregau ar yr un pryd â sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n gynaliadwy. Drwy gydweithio â rhanddeiliaid yn y diwydiant a sicrhau dull cytbwys o echdynnu adnoddau a diogelu'r amgylchedd, mae RAWP yn helpu i gynnal cyflenwad cyson o ddeunyddiau sydd eu hangen ar gyfer prosiectau seilwaith ac adeiladu, gan leihau effeithiau amgylcheddol ar yr un pryd.

2.3 Cyd-destun Lleol

- 2.3.1 Mae'r [Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd](#) (CDLIC) presennol wedi rheoli defnydd tir, datblygiad a seilwaith ar draws Ynys Môn a Gwynedd ers 2017. Bydd yn cael ei

ddisodli gan CDLI newydd Ynys Môn ond ar hyn o bryd mae'n darparu cyddestun lleol defnyddiol.

- 2.3.2 [Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn](#) (2023 - 2028) yw strategaeth gorfforaethol y Cyngor sy'n amlinellu blaenoriaethau, gwasanaethau ac amcanion gwella lleol yr Ynys. Mae'n ddogfen allweddol o ran llywio gwaith y Cyngor. Mae'r cynllun yn sicrhau bod camau gweithredu'r Cyngor yn cyd-fynd ag anghenion y gymuned, gan osod nodau clir ar gyfer gwella gwasanaethau ac ansawdd bywyd ar Ynys Môn.
- 2.3.3 Mae'r [Cynllun Llesiant Lleol](#) wedi'i ddylunio i wella iechyd, llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau yn Ynys Môn, Gwynedd a thu hwnt, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r cynllun yn mabwysiadu dull cyfannol o ddatblygu cymunedol, gan fynd i'r afael â rhyng-gysylltiad ffactorau amrywiol fel iechyd y cyhoedd, addysg a chyfleoedd economaidd. Ei nod yw creu rhanbarth mwy teg, cydnerth a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- 2.3.4 Mae'r [Datganiad Argyfwng Hinsawdd](#) yn gydnabyddiaeth ffurfiol gan y Cyngor o'r angen dybryd i weithredu'n ystyrlon ar newid hinsawdd. Drwy ddatgan argyfwng hinsawdd, mae'r Cyngor yn ymrwymo i wreiddio ystyriaethau hinsawdd ym mhob polisi a phroses benderfynu leol. Mae'r datganiad hwn yn sbarduno ymateb lleol cynhwysfawr i'r argyfwng hinsawdd, gan annog datblygu cynaliadwy, lleihau allyriadau carbon, a diogelu adnoddau naturiol.
- 2.3.5 Mae'r [Rhaglen Ynys Ynni](#) yn fenter uchelgeisiol i sefydlu Ynys Môn fel canolfan flaenllaw ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu Ynys Môn i gynhyrchu ynni glân drwy brosiectau fel cynlluniau ynni gwynt, llanw a niwclear. Drwy fanteisio ar adnoddau naturiol Ynys Môn, nod y Rhaglen Ynys Ynni yw sbarduno twf economaidd, creu swyddi cynaliadwy, a chyfrannu at nodau trawsnewid ynni ehangach Cymru.
- 2.3.6 Mae [Dynodiad Porthladd Rhydd \(Ynys Môn\)](#) yn fenter parth economaidd arbennig sy'n rhoi cymhellion treth a chymorth seilwaith i'r rhanbarth i annog buddsoddiad, masnach a chreu swyddi. Mae'r dynodiad yn rhan o strategaeth ehangach i drawsnewid Ynys Môn yn ganolfan economaidd ddeinamig, gan ddenu busnesau, yn enwedig mewn sectorau fel ynni adnewyddadwy a charbon isel, gweithgynhyrchu a logisteg, a rhoi hwb i economi ranbarthol Ynys Môn.
- 2.3.7 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i atal colli bioamrywiaeth, gwarchod cynefinoedd naturiol, a hyrwyddo gwytnwch amgylcheddol. Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), ond mae hefyd yn ceisio diogelu amgylchedd naturiol unigryw Ynys Môn drwy roi strategaethau ar waith i adfer bioamrywiaeth, gwella gwasanaethau ecosystemau, a chynnwys

cymunedau lleol mewn ymdrechion cadwraeth. Cofnodir cynnydd yn yr [Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau](#).

- 2.3.8 Mae [Cynlluniau Canol Trefi](#) yn canolbwyntio ar strategaethau i adfywio a chynnal canol trefi ledled Ynys Môn. Nod y cynlluniau hyn yw adfywio ardaloedd trefol drwy wella gweithgarwch economaidd, gwella hygyrchedd, a chreu mannau cyhoeddus mwy bywiog. Drwy fuddsoddi mewn adfywio canol trefi, mae'r cynlluniau'n ceisio cryfhau economïau lleol, cefnogi busnesau bach, a meithrin mannau cynhwysol a chroesawgar i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.
- 2.3.9 Mae [Cynllun Rheoli Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn](#) yn gwerthuso ac yn pennu rhinweddau arbennig y Dirwedd Genedlaethol. Mae hefyd yn nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod y rhinweddau hyn yn cael eu gwarchod a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Pennod 3

Ynys Môn yn ei chyd-destun

3.0 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi cyflwyniad i Ynys Môn. Mae'n nodi nodweddion allweddol yr Ynys ac yn rhoi cyd-destun ar gyfer y CDLI newydd.

3.1 Lleoliad a Thopograffeg

3.1.1 Ynys Môn yw'r ynys fwyaf yng Nghymru ac mae'n seithfed o ran maint ymysg Ynysoedd Prydain, gan rychwantu tua 714 cilomedr sgwâr. Mae ychydig oddi ar arfordir gogledd-orllewinol tir mawr Cymru, wedi'i gwahanu gan Afon Menai ac wedi'i chysylltu gan ddwy bont: Pont Britannia, sy'n cario'r A55 a'r rheilffordd, a Phont Menai, sy'n cario'r A5. Mae'r cysylltiadau a'r pontydd yn allweddol ar gyfer cymudo a busnes.


3.1.2 Mae tir yr Ynys yn dir isel ac yn donnog ar y cyfan, a Mynydd Tŵr yw ei phwynt uchaf. Oherwydd ei natur isel mae llawer o orlifdir ar yr ynys. Mae gan Ynys Môn arfordir amrywiol sy'n cynnwys clogwyni dramatig, traethau tywodlyd, twyni ac aberoedd. I mewn i'r tir, mae'r dirwedd yn cynnwys gwastadeddau tonnog gyda choetiroedd a chaeau amaethyddol ffrwythlon rhyngddynt. Yn ddaearegol, mae'r Ynys yn cynnwys cymysgedd o greigiau Cyn-Gambriaidd hynafol, dyddodion rhewlifol, a haenau gwaddodol, sy'n cyfrannu at ei thirffurfiau amrywiol.

3.2 Aneddiadau a lleoedd allweddol

3.2.1 Mae Ynys Môn yn wledig ar y cyfan, gyda nifer o aneddiadau allweddol. Caergybi yw'r dref fwyaf ac mae'n borthladd fferi rhyngwladol mawr i Iwerddon, gydag atyniadau fel Goleudy Ynys Lawd a Pharc Gwledig y Morglawdd. Mae Llangefni, sydd wedi'i lleoli'n ganolog, yn gweithredu fel y ganolfan weinyddol a'r dref farchnad, gan gynnig gwasanaethau busnes ac adwerthu, ochr yn ochr â choleg addysg bellach ac ystadau diwydiannol sy'n tyfu. Mae hefyd yn gartref i safleoedd diwylliannol fel amgueddfa Oriel Ynys Môn a Gwarchodfa Natur Nant y Pandy. Mae Amlwch yn ganolfan leol allweddol ar gyfer Gogledd Ynys Môn, sy'n cynnwys yr unig ysgol uwchradd nad yw'n agos at yr A55. Arferai fod yn ganolfan mwynloddio copr, ac mae'n cadw ei threftadaeth ddiwydiannol drwy safleoedd fel y Deyrnas Gopr a Mynydd Parys. Dyma'r ganolfan leol agosaf at orsaf bŵer Wylfa. Mae Porthaethwy, sydd wedi'i lleoli ar y Fenai, yn enwog am ei phont grog eiconig a'i glannau hardd. Mae'n cynnwys ysgol uwchradd ac mae'n ganolfan dwristiaeth.


3.2.2 Mae Biwmares yn dref lan môr brydferth, gyda chyfuniad o bensaernïaeth ganoloesol, Sioraidd a Fictoraidd, ac yn gartref i Gastell hanesyddol Biwmares.

Mae aneddiadau sy'n gysylltiedig â'r gorsafoedd rheilffordd ar yr Ynys yn Llanfair a'r Fali. Mae gan Gaerwen ystâd ddiwydiannol sylweddol.




3.3 Yr Amgylchedd

- 3.3.1 Mae amgylchedd yr Ynys yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth ac mae'n cael ei siapio gan ei thirweddau amrywiol a'i dynodiadau cadwraeth natur. Mae tua thraean o Ynys Môn wedi'i dynodi'n Dirwedd Genedlaethol (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gynt). Mae cynefinoedd arfordirol yn cynnwys traethau a thwyni yn Nhywyn Niwbwrch ac Aberffraw, clogwyni a glannau creigiog ar hyd arfordir y gogledd ac Ynys Gybi, ac aberoedd a morfeydd heli mewn ardaloedd fel Malltraeth a Thraeth Coch. Yn fewndirol, amaethyddiaeth sy'n dominyddu'r defnydd tir, gyda chefnogaeth tir tonnog ysgafn yr Ynys. Mae gwlyptiroedd a ffeniau calchaid prin, rhai wedi'u gwarchod fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, yn ychwanegu gwerth ecolegol, tra bod llynnoedd fel Llyn Alaw yn darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt amrywiol.



3.4 Mynediad a Thrafnidiaeth

- 3.4.1 Mae gan Ynys Môn gysylltiadau da ag Iwerddon, yn bennaf drwy ei rôl fel porthladd. Mae Porthladd Caergybi yn parhau i fod yn derfynfa fferi hanfodol, gyda gwasanaethau rheolaidd i Ddilyn yn cael eu rhedeg gan Stena Line ac Irish Ferries.
- 3.4.2 Mae'r rhwydwaith ffyrdd mewnol yn cynnwys ffyrdd A a B a lonydd gwledig. Mae'r Ynys wedi'i chysylltu â'r tir mawr drwy bontydd Menai (Pont Britannia, sy'n cario'r A55 a'r rheilffordd, a Phont Menai, sy'n cario'r A5). Mae'r croesfannau'n hanfodol i'r ynys ond mae problemau o ran capasiti, yn enwedig ar adegau prysur. Mae natur gyfyngedig y croesfannau hyn, a'u problemau capasiti, yn peri risg sylweddol i'r Ynys o ran cydnherthedd.
- 3.4.3 Mae gwasanaethau trên yn rhedeg ar draws yr Ynys gan ddod i ben yng Nghaergybi - diwedd Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru. Mae'r llwybr yn cynnig cysylltiadau â Llundain, Manceinion a Crewe. Mae gwasanaethau bysiau'n cysylltu'r prif drefi ond yn llai aml mewn ardaloedd gwledig. Mae cynlluniau cludiant cymunedol fel Car Linc Môn a Chynllun Tro Da Seiriol yn helpu i gefnogi symudedd preswylwyr agored i niwed. Oherwydd prinder trafndiaeth gyhoeddus, mae preswylwyr yn aml yn dibynnu ar geir preifat. Anogir teithio llesol drwy dros 1,000 cilomedr o hawliau tramwy cyhoeddus (gan gynnwys Llwybr Arfordirol Ynys Môn sy'n 125 milltir o hyd), ochr yn ochr â rhwydwaith beicio sy'n cynnwys Lôn Las Cefni, Lôn Las Copr, a Llwybrau 5 ac 8 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.



3.5 Poblogaeth a demograffeg

- 3.5.1 Yn ôl Cyfrifiad 2021 ac amcangyfrifon canol 2022, mae gan Ynys Môn boblogaeth o tua 69,000. Mae'n un o'r ardaloedd lleiaf poblog yng Nghymru, gyda dwysedd o 97 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae'r proffil demograffig yn nodedig o hŷn, gydag oedran canolrifol o 49.3 oed o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 42. Mae cyfran y preswylwyr 65 oed a hŷn yn 26.5%, sy'n golygu mai dyma'r grŵp oedran sy'n tyfu gyflymaf. Mae'r boblogaeth oedran gweithio wedi gostwng o 59.6% yn 2011 i 56.3% yn 2022. O ran ethnigrwydd, mae'r boblogaeth yn wyn yn bennaf (98.1%), gyda 66.6% wedi'u geni yng Nghymru. Gwelodd yr Ynys y cynnydd mwyaf yn nifer y trigolion a nododd eu bod yn "Gymraeg yn unig" rhwng 2011 a 2021.

3.6 Yr iaith Gymraeg

- 3.6.1 Mae Ynys Môn yn gadarnle i'r iaith Gymraeg. Mae hyfedredd yn y Gymraeg yn parhau i fod yn gryf, gyda'r cyfrifiad yn nodi bod 55.8% o breswylwyr yn gallu siarad Cymraeg, er bod hyn yn ostyngiad bach o 57.2% yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf o ganlyniad i golli pobl oedran gweithio sy'n siarad Cymraeg a chynnydd yn nifer y bobl hŷn nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae'n galonogol gweld twf yn y gallu i siarad Cymraeg ymysg oedolion iau, yn enwedig mewn ardaloedd fel Niwbwrch, Biwmares a Chaergybi.

3.7 Economi

- 3.7.1 Yn economaidd, mae Ynys Môn yn cael ei siapio gan sectorau tymhorol fel twristiaeth ac amaethyddiaeth, presenoldeb sylweddol y sector cyhoeddus, a'i rôl strategol fel porth llongau fferi. Twristiaeth a lletygarwch yw'r cyflogwyr mwyaf, sy'n denu 1.7 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn, er bod y sector yn dymhorol iawn. Y sector cyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf sefydlog o hyd, er bod ei gwmpas yn gyfyngedig. Mae Porthladd Caergybi yn cefnogi amrywiaeth o fusnesau trafnidiaeth a logisteg. Mae amaethyddiaeth yn parhau i chwarae rhan bwysig, er bod y cyflog yn is yn gyffredinol. Mae'r Ynys hefyd yn ei hystyried ei hun yn "Ynys Ynni", sy'n hyrwyddo mentrau ynni niwclear, llanw ac ynni gwynt ar y môr, gyda phrosiectau niwclear ar y gweill yn y dyfodol ar ôl datgomisiynu Wylfa. Mae gweithgynhyrchu wedi dirywio, a hynny wedi'i nodi gan gau Alwminiwm Môn. Un datblygiad strategol mawr yw dynodi Ynys Môn yn Borthladd Rhydd, gyda'r nod o ddenu buddsoddiad a sbarduno adfywiad economaidd.

Pennod 4

Materion, heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Ynys Môn

4.0 Cyflwyniad

Mae'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu Ynys Môn wedi cael eu nodi drwy ystyried deddfwriaethau, polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, adolygu blaenoriaethau strategol y Cyngor ac ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid. Ar ben hynny, mae adolygiad o gynlluniau a strategaethau'r Cyngor, yn ogystal ag Adroddiadau Monitro Blynyddol, wedi rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol wedi cael eu grwpio yn ôl thema.

4.1 Thema: Cefnogi Economi Gynaliadwy a Bywiog

4.1.1 Cymharol ychydig o swyddi sydd ar yr Ynys i gynnal ei phoblogaeth breswyl. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, collwyd nifer sylweddol o swyddi ar ôl cau cyflogwyr mawr, gan arwain at lawer o allgymudo ac allfudo.

4.1.2 Mae [Cynllun y Cyngor](#) yn nodi'r Economi fel un o'i chwe amcan strategol. Nod parhaus y Cyngor yw cefnogi busnesau presennol, denu buddsoddiad newydd priodol a chynyddu nifer y busnesau newydd wrth ymrwymo i sicrhau bod gan yr Ynys un o'r cyfraddau isaf o fusnesau sy'n cau ledled Cymru. Mae'r ymrwymiad i ailddatblygu hen safleoedd cyflogaeth (maes llwyd) yn glir, fel y mae cydweithio â thirfeddianwyr i gyflawni hyn.

4.1.3 Mae Gogledd Ynys Môn yn wynebu heriau economaidd yn fwy nag unrhyw ran arall o'r Ynys o ystyried colli nifer o gyflogwyr mawr yn yr ardal dros y degawdau diwethaf a'i natur ymylol cymharol a'i phellter o asgwrn cefn yr A55. Yn unol â hynny, mae angen mynd i'r afael â'r heriau economaidd sy'n wynebu'r ardal er mwyn sicrhau ei ffyniant a'i lles yn y dyfodol. Un cyfle allweddol yma yw'r datblygiad yn Wylfa. Mae [Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn](#) yn amlinellu amrywiaeth o ymyriadau i sicrhau gwelliannau a manteision parhaol i'r ardal. Bydd ymateb y CDLI newydd i'r sefyllfa economaidd yng ngogledd Ynys Môn yn cael ei lywio gan yr egwyddorion a amlinellir yn y Cynllun Adfywio Economaidd.

4.1.4 Mae'r angen i gadw'r boblogaeth oed gweithio i ysgogi adfywiad economaidd a chymunedol yn hollbwysig. O'r herwydd, mae'n bwysig meithrin a thyfu busnesau lleol yn ogystal â denu buddsoddiad newydd i Ynys Môn. Bydd angen i'r CDLI newydd alluogi twf busnes drwy ddyrannu tir cyflogaeth yn briodol ac yn gymesur.

4.1.5 Mae gan sicrhau statws Porthladd Rhydd y potensial i sicrhau newid trawsnewidiol mewn cymunedau ar draws Ynys Môn. Gydag amcanestyniadau'n

awgrymu y gallai greu miloedd o swyddi newydd, hyd at 13,000-20,000 o bosibl erbyn 2030, bydd angen i'r CDLI newydd ymateb i anghenion y Porthladd Rhydd a mynd i'r afael â materion sy'n deillio o roi'r statws. Dylai'r ymrwymiad i arloesi a buddsoddi a chefnogi talent leol ddarparu cyfleoedd i ddenu buddsoddiad sylweddol o'r tu allan i gefnogi ac amrywio sylfaen economaidd yr Ynys, gan greu swyddi cynaliadwy a hygyrch ar yr un pryd a fydd yn cyfrannu at gadw'r boblogaeth oed gweithio.

- 4.1.6 O ystyried y tir sydd wedi'i ymrwymo i'r Porthladd Rhydd, a fydd yn cynnwys cyfran fawr o dir cyflogaeth sydd wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae angen ystyried ac asesu addasrwydd tir arall i'w ddyrannu at ddibenion economaidd cyffredinol.
- 4.1.7 Mae'r angen i gefnogi a hwyluso ynni carbon isel fel ffordd o gyfrannu at gyrraedd targedau sero net wedi'i amlinellu yng Nghynllun y Cyngor o dan y [Rhaglen Ynys Ynni](#). Nod Rhaglen Ynys Ynni yw darparu cyfleoedd ar gyfer swyddi, twf economaidd a ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol a rhoi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu ynni carbon isel. Mae cwrdd y buddsoddiad posibl yn y cyswllt hwn yn sylweddol a bydd yn sicrhau gwireddu manteision amgylcheddol ac economaidd i'r Ynys o ran cyfrannu at leihau allyriadau carbon a chreu swyddi ymysg eraill.
- 4.1.8 Prynod Llywodraeth y DU safle Wylfa ym mis Mawrth 2024. Ym mis Tachwedd 2025, dewiswyd Wylfa fel y safle cyntaf yn y DU ar gyfer Adweithyddion Modiwlaid Bach. Bydd 3 adweithydd ar y safle i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o 5 adweithydd ychwanegol yn y dyfodol. Bydd manteision economaidd y prosiect hwn yn helpu i adfywio gogledd Ynys Môn, sydd ar hyn o bryd yn wynebu nifer o heriau economaidd-gymdeithasol sylweddol.
- 4.1.9 Bydd y CDLI newydd yn ceisio darparu sail polisi gadarn ar gyfer gwireddu manteision prosiectau mawr tra'n sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol a allai godi naill ai'n cael eu hosgoi neu eu lliniaru'n briodol.
- 4.1.10 Mae Ynys Môn wedi cael ei dynodi'n barth twf deallusrwydd artiffisial. Bwriad y statws hwn yw cyflymu'r broses o gymeradwyo cynlluniau ar gyfer canolfannau data, rhoi gwell mynediad iddynt at y grid a denu buddsoddiad o bob cwr o'r byd.
- 4.1.11 Gan ystyried pwysigrwydd parhaus amaethyddiaeth a gwasanaethau cysylltiedig i economi'r Ynys, mae angen rhoi sylw i ofynion amaethyddol yn ogystal â chyfleoedd i gefnogi, cynnal ac amrywio'r economi wledig.
- 4.1.12 Hefyd, rhaid i'r sector ymateb i'r heriau a osodir gan newid yn yr hinsawdd ac adfer natur a, gyda newidiadau mewn pwyslais i'r fframwaith cymhorthdal amaethyddol, bydd mwy o bwyslais ar yr angen i arallgyfeirio busnesau i sicrhau

eu bod yn parhau i fod yn hyfyw. Bydd economi wledig fwy amrywiol yn gallu gwrthsefyll newid a chynnal cymunedau gwledig yn well.

4.1.13 Mae canol trefi'n cael ei ystyried yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Ynys Môn, ac maent yn ganolfannau ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau nad ydynt ar gael o bosibl mewn mannau eraill ar yr Ynys. Mae [Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-2028](#) y Cyngor yn nodi fframwaith ar gyfer gwella apêl, hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi. Mae canol trefi wedi wynebu nifer o newidiadau difrifol fel twf mewn adwerthu ar gyrion trefi neu y tu allan iddynt, colli gwasanaethau traddodiadol yng nghanol trefi fel banciau'r stryd fawr, ac mae'r twf mewn adwerthu ar-lein wedi herio canol trefi'n sylweddol. Efallai y bydd mabwysiadu dull wedi'i addasu o adfywio canol trefi yn briodol.

4.1.14 Mae prif ganolfannau trefol Ynys Môn, sef Caergybi, Llangefni ac Amlwch i gyd wedi gweld gostyngiad mewn meddiannaeth "traddodiadol" ar y stryd fawr, tra bod ganolfannau Porthaethwy a Biwmares yn gymharol fywiog o'u cymharu. Mae [Cynllun y Cyngor](#) yn gosod y nod o wella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi Ynys Môn a gellir cefnogi hyn gyda pholisïau priodol yn y CDLI newydd.

4.1.15 Mae'r economi ymwelwyr yn hanfodol i ffyniant yr Ynys ac yn cynrychioli sector mwyaf yr economi leol. Mae Cynllun y Cyngor yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi mewn seilwaith a fydd yn caniatáu i ymwelwyr fwynhau arfordir a chefn gwlad yr Ynys i'r graddau mwyaf posibl mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy tra bydd llwyddiant y mordeithiau sy'n ymweld ag Ynys Môn yn parhau i gael ei gefnogi.

4.1.16 Mae'r [Cynllun Rheoli Cyrchfan](#) yn egluro'r angen i reoli'r twf mewn twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau ffyniant hirdymor ar yr un pryd â lliniaru effeithiau amgylcheddol a chymunedol negyddol gyda'r bwriad o ddiogelu'r hyn sy'n gwneud yr Ynys yn ddeniadol i ymwelwyr yn y lle cyntaf.

4.1.17 Ffynonellau Perthnasol i gefnogi'r thema


- [Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn](#)
- [Porthladd Rhydd](#)
- [Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-28](#)
- [Cynllun Rheoli Cyrchfan](#)

4.2 Thema: Sicrhau mynediad at Gartrefi addas

4.2.1 Mae [Cynllun y Cyngor](#) yn nodi, fel un o'i brif amcanion, yr angen i sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda

rhanddeiliaid i nodi anghenion tai a thrwy hynny alluogi darpariaeth briodol i ddiwallu'r angen hwnnw a'r deiliadaethau gofynnol.

- 4.2.2 Mae maint cyfartalog aelwydydd yn lleihau, sy'n golygu ei bod yn debygol y bydd y galw am unedau llai yn cynyddu.
- 4.2.3 Mae [Strategaeth Dai](#) y Cyngor yn cynghori bod 62% o bobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai a, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae hyn yn golygu y bydd ystod eang o atebion tai sy'n cynnig amrywiaeth o ddaliadaethau yn allweddol i fynd i'r afael ag anghenion tai.
- 4.2.4 Mae'r Asesiad o Farchnad Dai Leol Ynys Môn drafft yn nodi cymhareb canolrif pris tŷ i incwm canolrifol o 7.2 ar gyfer yr Ynys gyfan, o'i gymharu â 6.1 yng Nghymru a 5.8 yng Ngogledd Cymru. Mae fforddiadwyedd tai yn fater allweddol y bydd angen i'r Cynllun roi sylw iddo.
- 4.2.5 Mae difrifoldeb y broblem yn amrywio ar draws yr Ynys, ac ardaloedd arfordirol yn benodol yw'r rhai lleiaf fforddiadwy i drigolion lleol.



- 4.3.1 Mae'r anawsterau a brofir gan drigolion sy'n dymuno prynu neu rentu tai yn eu cymunedau wedi arwain at gyflwyno deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ystyried dileu neu gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir (drwy roi cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995) mewn perthynas â newid defnydd prif gartrefi yn ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr. Bydd yr angen i fynd i'r afael â'r mater hwn yn gofyn am ymateb polisi yn y CDLI newydd.
- 4.3.2 Mae anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o yrru'r galw am lety arbenigol lle gellir darparu gofal i breswylwyr. Yn yr un modd, bydd gan bobl ag anableddau ac anghenion meddygol ofynion penodol ar gyfer llety byw â chymorth a fydd yn galluogi'r rhai sy'n fwy dibynnol i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.
- 4.3.3 Mae anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hamlinellu yn yr [Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr \(GTAA\) 2022](#). Wedi'i gyflawni ar gyfer Cyngorau Ynys Môn a Gwynedd, mae'r Asesiad yn nodi'r angen am leiniau preswyl yn yr Ynys yn y dyfodol.
- 4.3.4 Ffynonellau Perthnasol i gefnogi'r thema
- [Strategaeth Tai Ynys Môn](#)
 - LHMA Drafft
 - [Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr \(GTAA\) 2022](#)

4.4 Thema: Darparu Seilwaith i Gefnogi Dyheadau Twf

- 4.4.1 Mae seilwaith yn y cyd-destun hwn yn cynnwys rhwydweithiau trafnidiaeth, rhwydweithiau cyfleustodau, cyfleusterau addysg (ysgolion cynradd ac uwchradd), cyfleusterau iechyd (meddygon teulu, fferyllwyr), seilwaith cymdeithasol (e.e. neuaddau cymunedol), seilwaith digidol (mynediad i'r rhyngwrdd) a seilwaith gwyrdd a glas (parciau a mannau agored).
- 4.4.2 Dylid cyfeirio datblygiadau at ardaloedd sydd â chysylltiadau da at seilwaith hanfodol, boed hynny mewn perthynas â charthffosiaeth a dŵr, nwy neu drydan. Dylid hefyd cyfeirio datblygiadau at ardaloedd lle mae mynediad at ofal iechyd ac addysg ar gael yn rhwydd. Lle byddai datblygiad yn arwain at bwysau ar wasanaethau o'r fath, dylid disgwyl cyfraniadau gan y datblygwr i alluogi addasu'r gwasanaeth.
- 4.4.3 Hefyd, o ystyried y pwysigrwydd a roddir ar gyfathrebu digidol ar gyfer anghenion bywyd a gwaith, dylid cyfeirio datblygiad lle bo cysylltedd o'r fath ar gael neu wedi'i gynllunio. Bydd y CDLI yn ystyried y cyfleoedd a ddarperir gan y

newid i fwy o weithio gartref a gweithio hybrid, a allai gefnogi ffyniant a chymuned mewn ardaloedd mwy anghysbell.

- 4.4.4 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Drydedd Bont ar draws y Fenai yn 2018, ond ni wnaeth y prosiect ddatblygu oherwydd penderfyniad y Llywodraeth i atal ei rhaglenni adeiladu ffyrdd. Mae achosion diweddar o dagfeydd sylweddol wedi arwain at ailedrych ar y mater, gydag [adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru](#) yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiad, er nad oedd yn cefnogi adeiladu pont newydd, yn cynnwys nifer o argymhellion a fydd yn arwain at oblygiadau o ran defnydd tir pe baent yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, gwrthododd y Cyngor ganfyddiadau'r Comisiwn gan nodi bod llawer o'r opsiynau a argymhellwyd, yr oedd casgliadau'r adroddiad yn seiliedig arnynt, wedi cael eu hystyried yn flaenorol gan y Cyngor ac na fyddent yn rhoi sylw digonol i'r diffyg gwytnwch sy'n bodoli. O ystyried hyn, byddai methu â darparu pont aml-ddull well yn gwaethygu heriau y mae economi a chymunedau Ynys Môn eisoes yn eu hwynebu.
- 4.4.5 Mae [Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth](#) Cymru 2021 yn nodi strategaeth 20 mlynedd ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy ar yr un pryd ag ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae'n cydnabod yr angen i newid y ffordd rydym yn teithio gyda llai o ddibyniaeth ar geir a defnyddio mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio ar yr un pryd ag argymell lleihau'r angen i deithio. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy weithio mwy o gartref/o bell, cysylltedd ffisegol a digidol gwell i leihau'r ddibyniaeth ar geir a seilwaith trafndiaeth a fyddai'n cefnogi dulliau teithio mwy effeithlon.
- 4.4.6 Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fapio a chynllunio ar gyfer llwybrau addas ar gyfer Teithio Llesol yn eu hardaloedd, a chymeradwywyd [Map Rhwydwaith Teithio Llesol Ynys Môn](#) gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022. Bydd lleoli datblygiad yn agos at lwybrau Teithio Llesol yn annog pobl i'w defnyddio, gan sicrhau manteision iechyd, lles ac amgylcheddol.
- 4.4.7 Bydd yr angen i newid y ffordd y mae pobl yn teithio felly'n ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu polisïau ar gyfer y CDLI newydd a bydd diogelu llwybrau teithio llesol a chynaliadwy o bosibl yn hollbwysig i'r broses honno.
- 4.4.8 Fodd bynnag, er y bydd teithio llesol yn chwarae rhan mewn rhai mannau, fel ardal nodedig o wledig sydd â rôl bwysig o ran logisteg a dosbarthu sy'n gysylltiedig â'r Porthladd, bydd teithio ar y ffyrdd yn dal yn bwysig. Fel yr ail borthladd gyrru i mewn ac allan mwyaf yn y DU, dyma'r prif borthladd o hyd a'r llwybr cyflymaf ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr i ac o lwerddon. Mae sicrhau cadernid a sefydlogrwydd hirdymor y porthladd yn hanfodol i dwf economaidd-gymdeithasol a masnach. Mae'r Porthladd yn hanfodol i hyfywedd economïau Ynys Môn, Gogledd Cymru, Cymru, y Deyrnas Unedig ac lwerddon.

4.4.9 Ffynonellau Perthnasol i gefnogi'r thema

- [Strategaeth Trafnidiaeth Ranbarthol](#)

4.5 Thema: Ymateb i Hinsawdd sy'n Newid

4.5.1 Datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 a gwnaeth ymrwymiad i fod yn awdurdod carbon niwtral erbyn 2030. Yn dilyn hynny, cytunodd ar "Gynllun tuag at Sero Net 2022-2025". Mae'r Cynllun yn ymrwymo i'r argyfwng hinsawdd ac yn egluro sut bydd yr awdurdod yn dod yn sefydliad sero net.

4.5.2 Mae Cynllun y Cyngor (2023-2028) yn atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn gan gydnabod bod yr angen i weithredu yn wyneb newid yn yr hinsawdd erioed wedi bod mor hanfodol. Wrth wneud hynny, mae'n ymrwymo i ystyried newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion sylfaenol wrth wneud penderfyniadau ar draws swyddogaethau'r Cyngor.

4.5.3 Yn yr un modd, mae Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd 2023-28 yn nodi newid yn yr hinsawdd fel un o nifer o brif flaenoriaethau ar gyfer trigolion y ddwy sir, gan atgyfnerthu ei ymrwymiad i gefnogi cymunedau i gyrraedd targedau sero net. Felly, mae'r angen i weithredu yn wyneb newid yn yr hinsawdd yn cael ei ystyried yn fater pwysig i roi sylw iddo yn y CDLI newydd.

4.5.4 Rhaid i'r CDLI hefyd hwyluso camau gweithredu ac ymyriadau sydd â'r nod o addasu i newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys mesurau gwrthsefyll llifogydd, rheoli systemau draenio dŵr storm ac ymdopi â chanlyniadau tywydd eithafol. Bydd atebion sy'n seiliedig ar natur a defnyddio seilwaith gwyrdd a glas yn cael eu hannog

4.5.5 Ffynonellau Perthnasol i gefnogi'r thema

- [Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025](#)
- [Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd 2023-28](#)

4.6 Thema: Diogelu a Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

4.6.1 Mae [Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg](#) yn amcanu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. [Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026](#) y Cyngor yn amlinellu'r hyn y mae'n bwriadu ei hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar yr Ynys. Mae'n bwriadu gwrthdroi'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr, gan anelu at gynyddu nifer y siaradwyr 325 yn ystod oes y Strategaeth. Mae'n

canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth, sef plant, pobl ifanc a'r teulu, y gweithle a'r gymuned.

- 4.6.2 Gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg i nifer o ffactorau ond, yn bennaf, y diffyg cyfleoedd cyflogaeth i'r boblogaeth iau, sy'n eu gorfodi i chwilio am waith mewn mannau eraill, a'r diffyg tai fforddiadwy i alluogi pobl i fyw yn y cymunedau lle cawsant eu magu. Hefyd, mae yna ddiffyg pobl oedran gweithio yn dychwelyd i'r Ynys ar ôl gadael am addysg uwch, a chynnydd yn nifer y trigolion di-Gymraeg sy'n mewnfudo.
- 4.6.3 Er bod Ynys Môn yn draddodiadol yn cael ei hystyried yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, mae nifer y siaradwyr Cymraeg ar ynys wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhaid i'r CDLI newydd gyfrannu at fynd i'r afael â'r dirywiad drwy ddatblygu polisïau cadarn sy'n ceisio diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. Bydd cynigion datblygu mwy yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau penodol neu asesiadau effaith gael eu cyflwyno i ddangos y camau a gymerir i ddiogelu, hybu a gwella'r Gymraeg.
- 4.6.4 Ffynonellau Perthnasol i gefnogi'r thema

- [Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026](#)

4.7 Thema: Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol a Rheoli Adnoddau

- 4.7.1 Roedd [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn cyflwyno'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau Adran 6, sy'n golygu ei bod yn ddyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.
- 4.7.2 Mae Polisi 10 [Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040](#) yn cydnabod rôl bioamrywiaeth o ran cefnogi "gweithrediad ecosystemau iach a chadarn a'r manteision lluosog maent yn eu darparu" ac mae'n ymrwymo i ddadwneud colledion diweddar a gwella cydnerthedd ecosystemau. Mae'r system gynllunio yn cael ei nodi fel un sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni'r amcan hwn.
- 4.7.3 Mewn ymateb i ddyletswydd Adran 6, mae'r Cyngor wedi paratoi a mabwysiadu [Cynllun Bioamrywiaeth](#) sy'n ceisio sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth amrywiol yr Ynys wrth arfer ei ddyletswyddau statudol a'i weithgareddau dewisol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cadernid ecosystemau.
- 4.7.4 Rhaid i'r CDLI newydd adlewyrchu'r ymrwymïadau a wneir yn y ddeddfwriaeth a'r polisi cenedlaethol ac yn y Cynllun Bioamrywiaeth corfforaethol i warchod a

gwella bioamrywiaeth ar yr un pryd â chryfhau seilwaith gwyrdd i alluogi cydnherthedd a chysylltedd rhwng rhwydweithiau ecolegol.

- 4.7.5 Mae gwarchod a gwella harddwch naturiol yn gysylltiedig â gwarchod a gwella bioamrywiaeth. Mae'r rhan fwyaf o forlin yr Ynys (221km²) wedi'i dynodi'n Dirwedd Genedlaethol (a elwid gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)). Mae'r [Cynllun Rheoli Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn 2023-28](#) yn atgyfnerthu'r angen i warchod a gwella harddwch naturiol ac yn cydnabod pwysigrwydd yr ardal ddynodedig i'r economi leol, i'r amgylchedd, i ddiwylliant ac i les ei chymunedau ac i'r rhai sy'n ymweld.
- 4.7.6 Mae gan Ynys Môn amrywiaeth o asedau hanesyddol gan gynnwys tua 1200 o adeiladau rhestredig, 12 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig, Safle Treftadaeth y Byd a nifer o henebion cofrestredig. Y flaenoriaeth yw diogelu'r asedau hanesyddol hyn a'u gwarchod rhag cael eu hesgeuluso a dirywio. O'r herwydd, bydd yr CDLI newydd yn darparu sylfaen bolisi gref ar gyfer rhoi gwarchodaeth i'r amgylchedd hanesyddol a sicrhau y bydd unrhyw ddatblygiad a gynigir mewn perthynas ag asedau hanesyddol yn cael ei gyflawni gyda'r budd pennaf i'r ased yn brif ystyriaeth.
- 4.7.8 Mae'r polisi a'r canllawiau presennol yn nodi bod pob Awdurdod Cynllunio Mwynau (MPA) yn bodloni gofynion banc tir penodol o ran darpariaeth agregau, sef cyflenwad 10 mlynedd o agregau craig galed a 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean. Rhaid cynnal banciau tir dros oes cynllun datblygu. Yn ymarferol, ni all Ynys Môn fodloni'r gofyniad am dywod a graean gan nad oes dim gweithrediadau masnachol ar yr Ynys ac er bod dyddodion tywod a graean yn bodoli, maent mewn ardaloedd sy'n ddarostyngedig i ddynodiadau amgylcheddol a fyddai'n golygu y byddai gweithio yno yn annerbyniol. O ran mwynau economaidd eraill, mae cronfeydd metel wrth gefn i'w cael ym Mynydd Parys ac mae cerrig dimensiwn yn cael eu tynnu o chwareli calchfaen yr Ynys.
- 4.7.9 Mae [Datganiad Technegol Rhanbarthol \(RTS\) Gogledd Cymru](#) yn ei gwneud yn ofynnol i bob MPA yn y rhanbarth gyfrannu swm o agregau wedi'i ddosrannu i'r allbwn rhanbarthol a dylai gynllunio yn unol â hynny i fodloni'r gofynion hynny.
- 4.7.10 Mae adfer safleoedd yn ystyriaeth bwysig iawn i fynd i'r afael ag effaith amgylcheddol gwaith chwarela/cloddio. Bydd yr agwedd hon ar y broses ôl-echdynnu yn cael sylw digonol yn y CDLI newydd.
- 4.7.11 Mae'r Hierarchaeth Gwastraff yn nodi'r flaenoriaeth o ran ymateb i reoli gwahanol ffrydiau gwastraff. Mae'r Hierarchaeth yn annog lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu (gan gynnwys compostio) cyn gwaredu er mai dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi yw'r prif amcan o hyd.

4.7.12 Mae [Cynllun Strategol Adnoddau a Gwastraff](#) y Cyngor yn amlinellu camau i symud tuag at economi gylchol sy'n gweithio tuag at ddarparu ymateb cynaliadwy i reoli gwastraff ac adfer adnoddau sy'n adlewyrchu amcanion cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn yr Hierarchaeth Gwastraff.

4.7.13 Bydd angen i'r CDLI newydd fynd i'r afael â mater rheoli gwastraff mewn ffordd sy'n gyson â nodau'r Hierarchaeth a, lle nad oes modd lleihau ac ailddefnyddio, dylid ystyried gwastraff fel adnodd y gellir ei reoli gyda chanlyniadau buddiol. Dylai'r CDLI newydd felly geisio hwyluso mwy o gapasiti ailgylchu a chompostio tra'n ystyried cynhyrchu ynni o ffrydiau gwastraff addas.

4.7.14 Er mwyn sicrhau cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu uwch, rhaid i'r cyfleusterau priodol fod ar gael ac, er bod y Cyngor eisoes yn rhedeg dwy ganolfan ailgylchu, mae diffygion yn y ddarpariaeth wedi'u nodi yn ardal Caergybi, lle mae tipio anghyfreithlon yn broblem sylweddol ac yng ngogledd yr Ynys. Yn yr un modd, mae'r diffyg capasiti ar gyfer rheoli gwastraff anadweithiol a phriddoedd gwastraff yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDLI newydd fynd i'r afael â'r materion hyn ac ystyried atebion priodol.

4.7.15 Ffynonellau Perthnasol i gefnogi'r thema

- [Cynllun Bioamrywiaeth](#)
- [Cynllun Rheoli Tirwedd Genedlaethol 2023-2028](#)
- [Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru](#)
- [Cynllun Strategol Adnoddau a Gwastraff](#)

4.8 Thema: Hyrwyddo Creu Lleoedd a Lles

4.8.1 Mae lleoliad datblygiad yn chwarae rhan fawr o ran gwireddu'r uchelgais o gyflawni cymunedau iach. Gellir sicrhau ffyrdd iachach o fyw drwy leoli datblygiadau yn agos at lwybrau teithio llesol a bydd darparu/diogelu mannau agored cyhoeddus hefyd yn cyfrannu at annog ffordd fwy egniol o fyw i drigolion. Gall darparu seilwaith i gefnogi pobl sy'n cerdded ac yn beicio yn hytrach na bod yn ddibynnol ar geir gyfrannu at gyflawni amcanion iechyd sy'n ymwneud â gordewdra a chyflyrau cysylltiedig. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y bydd teithio mewn car ar ynys wledig yn parhau i fod yn rhan o fywydau y rhan fwyaf o drigolion.

4.8.2 Bydd yr angen i ystyried llwybrau teithio llesol a chynaliadwy a'u diogelu i wasanaethu datblygiad newydd posibl yn nodwedd bwysig o'r CDLI newydd.

4.8.3 Mae cyfleusterau cymunedol yn hanfodol i gynnal sylfaen economaidd, gymdeithasol a diwylliannol aneddiadau a chymunedau. Gall eu presenoldeb leihau'r angen i deithio i ganolfannau mwy a gallant gyfrannu at les yn ogystal â

bod yn elfen hanfodol o greu lleoedd llwyddiannus. Mae eu diogelu rhag mathau eraill o ddatblygiadau yn hanfodol er mwyn helpu i gynnal cydlyniant cymunedol a dylai polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol geisio cefnogi eu cadw ar gyfer defnydd cymunedol. Un mater cysylltiedig yw sicrhau bod digon o alw am y cyfleusterau hyn drwy gadw a denu teuluoedd sy'n gweithio sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd.

4.8.4 Mae Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a difreintiedig, gyda'r canlynol yn cael eu nodi gan breswylwyr fel y blaenoriaethau i fynd i'r afael â nhw:

- ymateb i dlodi a chostau byw;
- gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc;
- gwella iechyd meddwl a lles;
- newid yn yr hinsawdd – cefnogi cymunedau i gyrraedd targedau sero net;
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- galluogi profiadau cyfartal a mynediad at natur;
- cynllunio gweithlu'r dyfodol sy'n diwallu anghenion y gymuned a'r economi leol;
- sicrhau tai ar gyfer pobl leol; a
- dylanwadu ar flaenoriaethau ariannol cyrff cyhoeddus.

4.8.5 Dylai'r CDLI newydd anelu at greu a chynnal cymunedau cynhwysol sy'n hybu iechyd a lles. Drwy ei bolisïau, dylai'r CDLI sicrhau safonau uchel o ran amwynder, meithrin cymunedau diogel gyda chyfleoedd cyflogaeth addas a chartrefi priodol.

4.8.6 Ffynonellau Perthnasol i gefnogi'r thema

- [Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn](#)

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- Ydych chi'n cytuno â'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol a nodwyd?
- Ydych chi'n cytuno â'r themâu a'r grwpiau cyffredinol?
- Oes unrhyw beth ar goll?

Pennod 5

Gweledigaeth

5.0 Cyflwyniad

Er mwyn sicrhau bod gan y Cynllun ffocws cydlynol i'r holl bolisiau weithio tuag at ei gyflawni, bydd gweledigaeth gref a chlir ar gyfer y dyfodol wrth galon y ddogfen. Dylai'r weledigaeth nodi disgrifiad uchelgeisiol sy'n benodol i'r ardal o sut le fydd yr Ynys ar ddiwedd cyfnod y Cynllun.

Rhaid i'r weledigaeth fod yn gyson â chynllun corfforaethol y Cyngor a pholisiau cyd-destunol allweddol eraill fel yr amlinellir ym mhennod 2. Dylid darllen y weledigaeth hefyd fel dilyniant i'r weledigaeth a nodir yn y CDLIC a fabwysiadwyd. Yn olaf, dylai ddarparu dimensiwn gofodol sy'n sicrhau ei fod yn unigryw i Ynys Môn.

Bydd y weledigaeth yn cael ei mireinio wrth i'r Cynllun fynd rhagddo er mwyn adlewyrchu tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn well ac ymgorffori cyfraniadau rhanddeiliaid.

Y Weledigaeth arfaethedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yw:

Erbyn 2039, bydd Ynys Môn yn Ynys o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiol lle bydd pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld. Bydd yr Ynys wedi:

- a) Cadw a gwella cymeriad unigryw'r Ynys, wedi'i strwythuro o amgylch yr aneddiadau allweddol a nodwyd ar gyfer twf ac ardal wledig helaeth sy'n cynnwys aneddiadau a phentrefi llai
- b) Gwarchod ei bioamrywiaeth a'i hasedau amgylcheddol allweddol, gan gynnwys Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn a safleoedd tirwedd ac ecolegol dynodedig a safleoedd eraill heb eu dynodi
- c) Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd a sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried mewn penderfyniadau cynllunio
- d) Cefnogi dylunio o ansawdd uchel mewn datblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth ddigonol o fannau agored hygyrch a seilwaith gwyrdd a glas
- e) Darparu digon o dai o'r mathau a'r deiliadaethau cywir i ddiwallu anghenion lleol, gan gynnwys ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio, tai fforddiadwy a'r gymuned sipsiwn a theithwyr

- f) Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd economaidd a chymdeithasol a ddaw yn sgil datblygiadau niwclear newydd yn Wylfa a datblygiadau cysylltiedig
- g) Lleihau'r angen i deithio (yn enwedig mewn car) drwy leoli datblygiadau newydd yn briodol, a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau yn agos at lle mae eu hangen, gan gydnabod y bydd angen i gymuned Ynys deithio rhywfaint mewn car o hyd
- h) Cyfrannu at liniaru newid hinsawdd drwy gefnogi datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel sydd wedi'i leoli'n sensitif, gan gynnwys datblygiadau yn Wylfa yn y dyfodol
- i) Cefnogi economi amrywiol gyda swyddi o ansawdd uchel, yn seiliedig ar ddiwydiannau arbenigol
- j) Cefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy barhau i ddenu ymwelwyr i'r Ynys, a sicrhau bod effeithiau twristiaeth yn cael eu rheoli a'u lleihau
- k) Manteisio i'r eithaf ar fanteision dynodiadau Porthladd Rhydd a pharth twf Deallusrwydd Artiffisial

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth arfaethedig?
- A yw'n canolbwyntio ar y materion cywir?
- Oes unrhyw beth ar goll?

Pennod 6

Amcanion

6.0 Cyflwyniad

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn nodi amcanion drafft y Cyngor. Bydd yr amcanion drafft yn sicrhau bod y weledigaeth ddrafft a nodir ym mhennod 5 yn cael ei gwireddu. Bydd y weledigaeth a'r amcanion yn sail i'r CDLI. Datblygwyd yr amcanion yng nghyd-destun y materion, y cyfleoedd a'r heriau allweddol a nodwyd ym mhennod 4. Mae cysylltiad clir rhwng yr amcanion drafft a'r Cynllun Corfforaethol, Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

6.1 Thema: Cefnogi Economi Gynaliadwy a Bywiog

6.1.1 Mae'r amcanion yn yr adran hon wedi'u cynllunio i gynnal economi gydnherth a ffyniannus i sicrhau cyflenwad cadarn o swyddi a chefnogi busnesau lleol.

Amcan 1: Annog ffyniant economaidd drwy gefnogi busnesau presennol a denu buddsoddiad newydd i wella sgiliau a chyfleoedd gwaith ar yr Ynys a, thrwy wneud hynny, galluogi cadw'r boblogaeth oed gweithio a chyfrannu at gymunedau mwy cynaliadwy a hyfyw.

6.1.2 Mae Amcan 1 yn ceisio darparu amrywiaeth o swyddi lleol diogel i drigolion Ynys Môn. Mae'n cydnabod y bydd darparu cyflogaeth leol yn helpu i gadw pobl oedran gweithio ar yr Ynys. Mae'n cysylltu â'r amcan strategol o hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi Ynys Môn yng Nghynllun y Cyngor.

Amcan 2: Parhau i ddarparu cyfleoedd datblygu ar gyfer arallgyfeirio'r economi wledig ar yr un pryd â darparu cymorth i ddiwydiannau gwledig sylfaenol fel ffermio i sicrhau eu hyfywedd a'u cadernid parhaus

6.1.3 Mae Amcan 2 yn darparu cymorth penodol i'r economi wledig. Mae'n cefnogi arallgyfeirio.

Amcan 3: Cefnogi datblygiadau sy'n gwella bywiogrwydd a hyfywedd strydoedd a chanol trefi Ynys Môn gyda'r bwriad o wella a diogelu canolfannau manwerthu lleol ar yr Ynys

- 6.1.4 Mae Amcan 3 yn cydnabod pwysigrwydd canol trefi Ynys Môn fel canolfannau adwerthu. Mae'n ceisio mynd i'r afael â gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a sicrhau bod canol trefi'n cael eu cynnal fel canolbwyntiau cymunedol a chanolfannau economaidd hyd yn oed mewn marchnad adwerthu sy'n newid.

Amcan 4: Cefnogi datblygiadau twristiaeth priodol o safon uchel a fydd yn cyfrannu at dwf cynaliadwy'r economi ymwelwyr gan sicrhau bod y nodweddion sy'n cyfrannu at atyniad yr Ynys fel cyrchfan yn cael eu diogelu'n ddigonol.

- 6.1.5 Mae Amcan 4 yn rhoi cefnogaeth glir i dwf yr economi ymwelwyr. Mae'n ceisio gwella arlwy Ynys Môn fel cyrchfan i dwristiaid ond mae'n cydbwyso hyn â'r angen i ddiogelu'r hyn sy'n creu'r galw ymysg twristiaid. Mae Ynys Môn yn cael ei gwerthfawrogi am ei thirweddau dramatig a rhaid i'r Cynllun sicrhau bod yr asedau allweddol hyn yn cael eu diogelu'n briodol.

Amcan 5: Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cyfleoedd buddsoddi strategol a ddarperir gan Ddynodiad Porthladd Rhydd a datblygiad yn Wylfa. Mae hyn yn cynnwys seilwaith galluogi.

- 6.1.6 Yn gysylltiedig ag Amcan 1, mae Amcan 5 yn darparu cefnogaeth glir a phenodol ar gyfer darparu'r cyfleoedd buddsoddi strategol allweddol sydd ar gael ar Ynys Môn.

6.2 Thema: Sicrhau mynediad at Gartrefi addas

- 6.2.1 Mae'r amcanion yn yr adran hon yn dangos sut bydd y Cynllun yn gwneud Ynys Môn yn lle gwyh i fyw ynddo drwy ddarparu tai addas gyda digon o seilwaith addas i hybu ffyrdd cynaliadwy o fyw.

Amcan 6: Hwyluso'r gwaith o ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o dai sydd eu hangen i ddiwallu'r galw am dai mewn ardaloedd trefol a gwledig. Bydd cartrefi o'r fath yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd ac yn hygyrch i wasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen ar breswylwyr yn ogystal ag ystyried anghenion a gofynion arbenigol poblogaeth sy'n heneiddio a'r angen i ddarparu digon o dai fforddiadwy

- 6.2.2 Mae Amcan 6 yn ceisio sicrhau bod ystod a chymysgedd addas o dai yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion amrywiol yr Ynys. Bydd angen i'r Cynllun gael ei ategu gan dystiolaeth o anghenion tai'r Ynys, gan gynnwys asesu'r angen am dai

fforddiadwy. Bydd yn ceisio diwallu anghenion am lety arbenigol a'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr.

6.3 Thema: Seilwaith i gefnogi uchelgeisiau

- 6.3.1 Mae'r amcanion y themau hon wedi'u cynllunio i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gefnogi'n briodol gan seilwaith hanfodol.

Amcan 7: Sicrhau bod seilwaith ffisegol, cymdeithasol/cymunedol, digidol, gwyrdd a glas strategol a lleol digonol ar waith i gefnogi twf yn ardal y Cynllun yn y dyfodol

- 6.3.2 Bydd Amcan 7 yn sicrhau bod seilwaith ategol yn ystyriaeth allweddol i'r Cynllun. Mae'r amcan hwn yn ymdrin â'r mathau o seilwaith "traddodiadol" sy'n cael eu hystyried fel arfer gan CDLI, ond mae hefyd yn ymdrin â seilwaith gwyrdd a glas (fel parciau, afonydd a thraethau), gan godi hyn i'r un lefel ag anghenion seilwaith eraill a mynnu bod atebion sy'n seiliedig ar natur yn cael eu hystyried. Mae'r amcan hefyd yn cefnogi sail cyfraniadau gan ddatblygwyr yn y dyfodol i gefnogi datblygiad.

Amcan 8: Sicrhau, cyn belled â phosibl, bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli i leihau'r angen i deithio a'u bod wedi'u dylunio i fod yn addas ar gyfer cerdded neu feicio, gyda chyfleusterau wedi'u lleoli wrth ymyl lle mae pobl yn byw

- 6.3.2 Mae Amcan 8 yn cydnabod yr angen i wneud bywyd bob dydd mor syml a hawdd â phosibl. Bydd yn helpu i sicrhau bod y CDLI yn cyflawni newid moddol. Mae'n adlewyrchu'r angen i gefnogi teithio llesol a bydd yn helpu i gyflawni amcanion amgylcheddol ac iechyd ehangach y Cyngor.

6.4 Thema: Ymateb i Hinsawdd sy'n Newid

- 6.4.1 Mae'r amcanion yn yr adran hon yn dangos sut y bydd y Cynllun yn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

Amcan 9: Cefnogi mesurau i leihau allyriadau carbon a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd, gan ymateb i gynhesu byd-eang a chefnogi cymdeithas i addasu'r ffordd mae'n gweithio, yn byw ac yn defnyddio tir, gan feithrin cadernid rhag effeithiau hinsawdd sy'n newid.

- 6.4.2 Mae Amcan 9 yn adlewyrchu'r ffaith bod y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd. Mae hefyd yn adlewyrchu'r amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor

i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net. Bydd gan y CDLI rôl allweddol yn cynorthwyo'r Cyngor i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae hyn yn ymwneud â lleihau allyriadau carbon, lliniaru effaith newid hinsawdd a gwneud Ynys Môn yn fwy gwydn i'w heffeithiau.

Amcan 10: Cefnogi'r broses o bontio i economi carbon isel. Cefnogi'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel drwy hwyluso'r gwaith o ddatblygu seilwaith priodol sy'n gwireddu manteision lleol ystyrllon ac yn lliniaru effeithiau negyddol.

6.4.3 Mae Amcan 10 yn darparu cymorth lefel uchel ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae'n sicrhau bod ymrwymïadau'r Cyngor i ddarparu ynni adnewyddadwy yn cael eu hadlewyrchu yn y CDLI.

6.5 Thema: Diogelu a Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

6.5.1 Mae'r amcanion y themau hon yn ceisio sicrhau bod y system gynllunio yn chwarae ei rhan wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar yr Ynys.

Amcan 11: Sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cynllunio'n briodol i alluogi'r Gymraeg i ddatblygu a ffynnu, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni targed cenedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

6.5.1 Mae Amcan 11 yn darparu fframwaith i'r Cynllun er mwyn gallu ystyried sut y gall ymateb i'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac yn benodol yn Ynys Môn. Mae hefyd yn adlewyrchu'r amcan strategol o gynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor.

6.6 Thema: Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol a Rheoli Adnoddau

6.6.1 Mae'r amcanion yn yr adran hon yn ceisio taro'r cydbwysedd rhwng caniatáu datblygu a newid, gan ddiogelu nodweddion unigryw amgylchedd Ynys Môn ar yr un pryd.

Amcan 12: Diogelu a gwella bioamrywiaeth yr Ynys drwy sicrhau bod effeithiau'r datblygiad yn cael eu hosgoi a'u lliniaru lle bo angen. Cyfrannu at gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a chysylltiedig a gwella seilwaith gwyrdd fel rhan o ddatblygiad.

- 6.6.2 Mae Amcan 12 yn ymateb i ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hyrwyddo cydnertheddd ecosystemau. Mae'n ceisio atal, a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael effaith gadarnhaol ar rwydweithiau presennol.

Amcan 13: Diogelu'r amgylchedd hanesyddol drwy sicrhau bod unrhyw ddatblygiad arfaethedig a allai effeithio ar asedau hanesyddol yn cael ei arwain gan fuddiannau gorau'r asedau hynny ac yn parchu cymeriad a natur unigryw lleol

- 6.6.3 Mae Amcan 13 yn ceisio sicrhau bod asedau hanesyddol a'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu diogelu a'u gwarchod yn barhaus. Mae'n cydnabod cyfraniad yr asedau hyn at rinweddau unigryw'r Ynys.

Amcan 14: Diogelu adnoddau mwynol rhag cael eu sterileiddio gan sicrhau bod banc tir digonol o fwynau agregau yn cael ei gynnal yn unol â'r gofynion presennol i ddiwallu anghenion cymdeithas yn gynaliadwy

- 6.6.4 Mae Amcan 14 yn cydnabod yr angen i ystyried cyflenwi deunyddiau i gefnogi datblygiad.

Amcan 15: Hwyluso darpariaeth ddigonol o gyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint â phosibl o wastraff a, thrwy wneud hynny, symud tuag at economi gylchol.

- 6.6.5 Mae Amcan 15 yn cydnabod pwysigrwydd yr economi gylchol ac yn darparu sail iddo gael ei wreiddio mewn cynigion datblygu yn y dyfodol.

Amcan 16: Hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles yr holl breswylwyr drwy sicrhau bod lleoedd yn cael eu dylunio a'u datblygu i gefnogi ffyrdd egnïol o fyw a chymunedau cysylltiedig drwy integreiddio safonau uchel o amwynder a meithrin amgylcheddau diogel i bawb

- 6.7.2 Bwriad Amcan 16 yw sicrhau bod dewisiadau ffordd iach o fyw yn cael eu cefnogi gan y CDLI, fel darparu cyfleoedd teithio llesol a sicrhau mynediad rhwydd at fannau agored, ond hefyd hyrwyddo cwrmpas rhyngweithio cymdeithasol yn y gymuned. Mae ganddo gysylltiad clir ag amcan strategol gofal cymdeithasol a lles Cynllun y Cyngor.

Amcan 17: Sicrhau bod cymunedau'n cael ystod o gyfleusterau allweddol sy'n darparu mynediad digonol i hamdden, adloniant, diwylliant, iechyd, addysg a mannau agored cyhoeddus. Dylai datblygiad a allai effeithio ar y defnydd o gyfleusterau o'r fath a'u hargaeledd geisio gwella'r ddarpariaeth.

6.7.3 Mae Amcan 17 yn ceisio sicrhau bod lleoedd yn ymarferol ac yn braf i fyw ynddynt. Mae'n ceisio sicrhau bod seilwaith cymunedol digonol ar waith, a'i fod yn cael ei ddiogelu. Mae'n cydnabod bod angen darparu seilwaith lleol digonol i gynnal ffyrdd cynaliadwy o fyw.

Amcan 18: Mabwysiadu dull creu lleoedd er mwyn gallu datblygu aneddiadau bywiog sy'n darparu dyluniad da sy'n unigryw yn lleol, sy'n adlewyrchu cyddestun, cymeriad a lleoliad, sy'n sicrhau mynediad a symudiad priodol, ac sy'n cyfrannu at gyflawni aneddiadau cynaliadwy sy'n eu gwneud yn fwy deniadol fel lleoedd i fyw a gweithio ynddynt.

6.7.4 Mae Amcan 18 yn adlewyrchu pwysigrwydd lle. Mae'n ceisio sicrhau bod y CDLI yn ymgorffori creu lleoedd yn briodol fel elfen ganolog o'r Cynllun. Nod y dull creu lleoedd hwn yw llywio twf cynaliadwy yn yr ardaloedd cywir - un o brif egwyddorion cynllunio Polisi Cynllunio Cymru.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- Ydych chi'n cytuno â'r amcanion hyn?
- A oes unrhyw rai ar goll?

Pennod 7

Cyfeiriad Polisi Arfaethedig

7.0 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r pynciau allweddol y bydd polisiâu'n cael eu datblygu ar eu cyfer yn y CDLI newydd. Cânt eu grwpio yn ôl thema ac maent wedi'u cysylltu'n glir â'r amcanion strategol.

Ar gyfer pob thema a maes pwnc, darperir crynodeb lefel uchel o'r pwnc, ochr yn ochr â:

- throsolwg o'r cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol allweddol,
- newidiadau arfaethedig i bolisi/dull gweithredu presennol y CDLIC, a'r
- dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r cyfeiriad polisi arfaethedig yn y dyfodol.

Bydd ystyriaeth lawn o'r gofynion polisi penodol yn cael ei chynnwys yn y ddogfen Strategaeth a Ffefrir.

7.1 Thema: Cefnogi Economi Gynaliadwy a Bywiog

Trosolwg

7.1.1 Mae'r CDLI yn hanfodol i gefnogi gweithgarwch economaidd yr Ynys. Rhaid i'r CDLI ddarparu digon o dir i gefnogi anghenion cyflogaeth dros y 15 mlynedd nesaf. Rhaid iddo sicrhau cadernid rhag amgylchiadau sy'n newid a bod yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau yn yr economi. Rhaid iddo gydnabod a chynllunio ar gyfer effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y cyfleoedd strategol sylweddol sy'n wynebu'r Ynys, fel dynodi Porthladd Rhydd a datblygiad yn Wylfa.

Bydd yr adran hon o'r CDLI hefyd yn ystyried yr economi ymwelwyr a sut y caiff hyn ei reoli. Mae'r economi ymwelwyr yn cyfrif am gyfran fawr o economi gyffredinol Ynys Môn a dylai'r CDLI helpu i dyfu a chynnal y cynnig i ymwelwyr, gan leihau'r natur dymhorol a chynyddu gwariant yn lleol.

Cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol allweddol

7.1.2 Mae polisi cenedlaethol yn datgan y dylai'r system gynllunio sicrhau nad yw twf allbwn a chyflogaeth yng Nghymru yn cael ei gyfyngu gan brinder tir. Mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn gyfle unigryw i ehangu cyflogaeth leol a thyfu economi'r Ynys.

Mae polisi cenedlaethol hefyd yn rhoi'r opsiwn o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli llety ymwelwyr. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn y CDLI newydd.

Newidiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Bydd angen diwygio polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn dyrannu safleoedd newydd a sicrhau economi gytbwys ar draws yr ardaloedd trefol a gwledig. Bydd yn asesu pa mor briodol yw'r ffiniau adwerthu presennol ac yn cael ei ddiweddarau i reoli'r economi ymwelwyr yn well. Bydd angen i'r CDLI newydd hefyd adlewyrchu'r Porthladd Rhydd sydd newydd gael ei ddynodi. Fel y CDLIC, bydd yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth a gweithlu posibl fydd yn deillio o ddatblygu cyfleusterau niwcLEAR yn Wylfa. Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys polisiâu diwygiedig i reoli llety ymwelwyr.

Gofynion tystiolaeth

- 7.1.3. Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth diwygiedig wedi cael ei baratoi ochr yn ochr â rhagolygon economaidd o dwf a thueddiadau. Mae hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r senarios yn adrannau olaf y ddogfen hon. Agwedd allweddol ar ystyried yr economi a chyflogaeth yw'r agwedd drawsffiniol - gan gynnwys effeithiau Wylfa ac o bosibl y Porthladd Rhydd - felly bydd trafodaethau parhaus gyda Chyngor Gwynedd ac awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru yn parhau.
- 7.1.4 Bydd astudiaeth adwerthu newydd yn cael ei pharatoi i asesu anghenion adwerthu'r Ynys ac i helpu i lywio ffiniau canol trefi mwy lle mae siopau a defnyddiau cysylltiedig eraill yn cael eu diogelu.
- 7.1.5 Bydd data ynghylch nifer a gwasgariad ail gartrefi a llety gwyliau yn cael ei gasglu i ystyried y dull gorau o reoli llety twristiaeth yn ardal y Cynllun.

7.2 Thema: Sicrhau mynediad at Gartrefi addas

Trosolwg

- 7.2.1 Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiâu tai i ymateb i'r heriau a'r amgylchiadau sy'n amlwg yn eu hardaloedd mewn lleoliadau penodol. Bydd angen i bolisiâu a chynigion y Cynllun ddarparu fframwaith ar gyfer darparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi newydd (gan gynnwys cartrefi fforddiadwy) a llety tai sy'n seiliedig ar dystiolaeth o angen.

Cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol allweddol

- 7.2.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan bod yn rhaid i ofynion tai fod yn seiliedig ar dystiolaeth a mynegi'n glir nifer y tai marchnad a fforddiadwy sydd eu hangen yn yr ardal dros gyfnod y Cynllun. Mae'n datgan y bydd Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol, yn rhan bwysig o sylfaen dystiolaeth y Cynllun. Ochr yn ochr â hyn, gellir cynnwys tystiolaeth berthnasol arall sy'n ystyried effaith rhai dewisiadau polisi. Mae hyn yn ymwneud ag effaith benodol cyfleoedd mawr fel datblygu cyfleusterau niwcLEAR yn Wylfa, presenoldeb y Porthladd Rhydd ac effaith gysylltiedig y Rhaglen Ynys Ynni ar anghenion tai.
- 7.2.3 Mae PCC yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiâu i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau penodol sy'n amlwg yn eu hardaloedd mewn lleoliadau penodol. Mae angen cymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y mae'n rhaid ei hystyried wrth lunio polisiâu cynlluniau datblygu. Rhaid i'r Cynllun gynnwys targed ar gyfer tai fforddiadwy gan ystyried y gallu i gyflawni a hyfywedd. Mae fforddiadwyedd yn fater hollbwysig yn Ynys Môn y dylai'r CDLI helpu i geisio mynd i'r afael ag ef.

Newidiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Bydd newidiadau mewn rhagolygon poblogaeth, economaidd ac aelwydydd yn llywio lefel y tai y bydd angen eu darparu drwy gydol cyfnod y Cynllun newydd. Bydd adolygiad o'r dyraniadau yn y CDLI presennol, nad ydynt yn ymrwymadau, yn bwysig. Bydd yn bwysig ystyried newidiadau a wnaed mewn polisi cynllunio cenedlaethol gan gynnwys cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, ac ym Mholisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â newidiadau i fonitro'r cyflenwad tai a safleoedd sy'n cael eu harwain gan dai fforddiadwy.

Gofynion tystiolaeth

- 7.2.4 Bydd angen cynnal nifer o astudiaethau i ddarparu'r waelodlin ar gyfer polisiâu tai yn y Cynllun newydd. Mae darnau allweddol o dystiolaeth yn cynnwys: LHMA; Asesiad Hyfywedd ar draws y Cynllun, Asesiad o Anghenion Tai; Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, ac asesiad o safleoedd posibl. Dylid cyfeirio hefyd at Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol, sy'n darparu gwybodaeth am gyflawni targedau tai a thai fforddiadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Mae angen ystyried astudiaethau eraill

hefyd, fel yr asesiad twf economaidd sy'n ystyried effaith ystyriaethau polisi mawr ar newid mewn poblogaeth.

7.3 Thema: Seilwaith i gefnogi uchelgeisiau twf

Trosolwg

- 7.3.1 Mae sicrhau bod datblygiad yn cael ei gefnogi gan seilwaith ffisegol, cymdeithasol, digidol a gwyrdd a glas digonol yn ystyriaeth allweddol yn y CDLI. Rhaid i'r CDLI sicrhau bod gan y seilwaith presennol y capasiti i ddarparu ar gyfer twf tai a chyflogaeth newydd a, lle nad yw'r capasiti hwnnw'n bodoli, bod gwelliannau'n cael eu gwneud.
- 7.3.2 Mae seilwaith yn y cyd-destun hwn yn cynnwys rhwydweithiau trafnidiaeth, rhwydweithiau cyfleustodau, cyfleusterau addysg (ysgolion cynradd ac uwchradd), cyfleusterau iechyd (meddygon teulu, fferyllwyr), seilwaith cymdeithasol (e.e. neuaddau cymunedol), seilwaith digidol (mynediad i'r rhyngwrdd) a seilwaith gwyrdd a glas (parciau a mannau agored).

Cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol allweddol

- 7.3.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan y dylid lleoli datblygiadau fel y gellir eu gwasanaethu'n dda gan seilwaith presennol neu arfaethedig. Yn gyffredinol, bydd hyn yn golygu gwneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith presennol neu ystyried sut y gellir cydlynu'r gwaith o ddarparu seilwaith yn effeithiol i gefnogi Cynlluniau Datblygu Lleol. Yn benodol, mae mwy o bwyslais ar gydnabod seilwaith gwyrdd fel rhan o'r seilwaith angenrheidiol i gefnogi datblygiad. Bydd y CDLI hefyd yn cydnabod manteision cysylltedd digidol a gweithio o bell, sy'n gallu lleihau'r angen i deithio, gan ddarparu cyfleoedd i ardaloedd gwledig.

Newidiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

It is anticipated that the approach to infrastructure taken in the JLDP will be similar in the new LDP. A strategic policy requiring the delivery of infrastructure (and the use of developer contributions to fund this delivery) will be supported by specific policies ensuring the protection and enhancement of infrastructure assets.

Gofynion tystiolaeth

- 7.3.4 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn paratoi tystiolaeth fanwl i nodi llinell sylfaen y seilwaith. Bydd y llinell sylfaen hon wedyn yn cael ei defnyddio i gefnogi

penderfyniadau ynghylch faint o dwf y gellir ei ddyrannu i ardaloedd penodol o'r Ynys. Bydd trafodaethau parhaus gyda darparwyr seilwaith yn allweddol i bennu safleoedd a ddewisir i'w datblygu a bydd sicrhau bod seilwaith digonol ar waith yn hollbwysig.

7.4 Thema: Ymateb i Hinsawdd sy'n Newid

Trosolwg

- 7.4.1 Er ei bod yn bwysig bod pob polisi yn y Cynllun yn ystyried newid hinsawdd, ystyrir y bydd cael adran benodol gyda gofynion polisi penodol yn sicrhau bod y mater hwn yn cael ystyriaeth briodol mewn unrhyw ddatblygiad sy'n digwydd ar yr Ynys. Disgwylir i'r adran hon o'r Cynllun hefyd gynnwys polisiâu i reoli datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel.
- 7.4.2 Bydd angen i'r Cynllun gefnogi mesurau i leihau canlyniadau newid hinsawdd (gan gynnwys perygl llifogydd) ar yr un pryd â helpu i gynyddu'r gallu i addasu i effeithiau yn y dyfodol a meithrin cadernid.

Cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol allweddol

- 7.4.3 Mae cefnogaeth genedlaethol a rhanbarthol glir i ymgorffori polisiâu lliniaru ac addasu i'r newid hinsawdd yn y CDLI fel yr amlinellir ym Mhennod 2.
- 7.4.4 Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod bod perygl llifogydd yn ffactor sy'n cyfyngu ar ddatblygiad. Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN 15) ar Ddatblygu a Pherygl Llifogydd, a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2025, yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ar sut i reoli perygl llifogydd wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a gwneud penderfyniadau cynllunio.

Newidiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Roedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys nifer o bolisiâu sydd â'r nod o fynd i'r afael â newid hinsawdd ond nid oedd yn cynnwys adran benodol ar newid hinsawdd.

Roedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cydnabod y risg o lifogydd ac er nad oedd yn cynnwys polisiâu penodol yn ymwneud â llifogydd yn unig, roedd polisiâu drwy gydol y Cynllun yn mynd i'r afael â rheoli a lleihau'r perygl o lifogydd.

Dyma brif egwyddorion y TAN 15 diwygiedig y bydd angen eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun newydd:

- Dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg: mabwysiadu dull rhagweithiol sy'n seiliedig ar risg o ddatblygu, gan gydbwyso rhagolygon risg llifogydd a newid hinsawdd â'r angen am ddatblygu cynaliadwy.
- System sy'n cael ei harwain gan gynllun: ffocws cryfach ar integreiddio'r gwaith o reoli perygl llifogydd yn ystod camau cynharaf y broses gynllunio. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ddyrannu tir yn strategol ar gyfer datblygu gan ddefnyddio tystiolaeth o berygl llifogydd.
- Fframwaith rhagofalus: cyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl mawr o lifogydd yn nhrefn blaenoriaeth.
- Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio: Caiff y map ei ddiweddarau bob chwe mis ac mae'n cynnwys rhagamcanion ar gyfer newid hinsawdd dros y ganrif nesaf. Dyma'r fframwaith diffiniol ar gyfer asesu perygl llifogydd mewn datblygiadau newydd.

Ystyrir yr angen am bolisi strategol ar risg llifogydd yng ngoleuni'r TAN15 diwygiedig.

Gofynion tystiolaeth

7.4.5 Mae'r Cyngor yn cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, a rhagwelir y bydd angen tystiolaeth i gefnogi dyraniadau posibl ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy. Bydd angen diweddarau'r Asesiad Capasiti Ynni Adnewyddadwy. Bydd hefyd angen casglu tystiolaeth i sicrhau nad yw tirwedd unigryw Ynys Môn yn cael ei niweidio gan ddatblygiadau arfaethedig. Bydd effeithiau cronus datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cael eu hystyried.

7.4.6 Bydd angen Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd i roi trosolwg manwl o'r perygl llifogydd o bob ffynhonnell (afonydd, arfordirol, dŵr wyneb, ac ati) yn Ynys Môn. Bydd yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn rhoi arweiniad i'r Cyngor ar sut i fynd ati i ddatblygu mewn ardaloedd sydd â lefelau amrywiol o berygl llifogydd.

7.5 Thema: Diogelu a Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

Trosolwg

7.5.1 Mae gan y CDLI rôl hollbwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo'r Gymraeg ar Ynys Môn. Ochr yn ochr ag amcanion y mae angen eu hystyried o ran iaith, bydd y

CDLI yn cynnwys polisiâu sydd â'r nod o sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg yn parhau i fod yn ystyriaeth berthnasol mewn ceisiadau cynllunio.

Cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol allweddol

- 7.5.2 Ystyrir hyrwyddo'r Gymraeg yn rôl ar gyfer cynllunio. Mae gan Ogledd Cymru, ac Ynys Môn yn benodol, rôl allweddol i'w chwarae o ran diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Newidiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Roedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys polisiâu allweddol a oedd yn ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn. Fodd bynnag, rhwng 2011 a 2021 bu gostyngiad o 1,155 (1.4%) yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn ail gartrefi a gafodd eu creu dros y cyfnod. Er gwaethaf hyn, mae nifer o ardaloedd sydd wedi gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, yn aml mewn lleoliadau sydd wedi gweld twf cryf mewn tai. Mae hyn yn awgrymu y gall twf pellach helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau.

Bydd y CDLI newydd yn cynnwys polisiâu gweddol debyg i'r CDLIC gyda'r nod o gefnogi'r Gymraeg. Rhagwelir y bydd yna ffocws ar ddarparu digon o dai a swyddi i alluogi siaradwyr Cymraeg i aros ar yr Ynys.

Gofynion tystiolaeth

- 7.5.3 Bydd y CDLI newydd yn parhau i gynnwys mesurau i gefnogi'r Gymraeg. Ystyrir y bydd data presennol o'r Cyfrifiad, gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Cyngor yn ddigonol i gefnogi hyn ac ni fydd unrhyw dystiolaeth newydd yn cael ei chynhyrchu.

7.6 Thema: Gwarchod yr Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol a Rheoli Adnoddau

Trosolwg

- 7.6.1 Rhaid diogelu, hyrwyddo, gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac asedau hanesyddol a diwylliannol Ardal y Cynllun. Bydd angen i'r Cynllun sicrhau bod amcanion y fframwaith polisi ar gyfer cyfleusterau yn diogelu, yn gwarchod, yn hyrwyddo ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, gan gydnabod ei fod yn rhan werthfawr ac annatod o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol yr Ynys.

Cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol allweddol

- 7.6.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn am gynlluniau i fynd i'r afael â dirywiad hirdymor a chronig bioamrywiaeth a cholli cynefinoedd, addasu i effeithiau newid hinsawdd a chydabod a mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n dylanwadu ar newid yn y dirwedd.
- 7.6.3 O ran yr amgylchedd hanesyddol, mae polisi cenedlaethol yn mynnu bod datblygiadau'n diogelu, yn gwarchod, yn hyrwyddo ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer llesiant cyffredinol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Dylai polisi lleol ddarparu canllawiau mewn perthynas â dynodiadau statudol, gan adlewyrchu arwyddocâd hanesyddol mwy dynodiadau statudol rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, o'i gymharu â dynodiadau lleol.
- 7.6.4 Mae echdynnu mwynau hefyd yn berthnasol i'r amgylchedd naturiol. Mae polisi cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol cydbwysu'r gofyniad sylfaenol i sicrhau cyflenwad digonol o fwynau â diogelu amwynder a'r amgylchedd.

Newidiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Disgwylir y bydd dull gweithredu gweddol debyg i'r hyn a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd bolisiâu sy'n ceisio nodi a diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol pwysicaf a nodweddion y dirwedd, e.e. yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (sydd bellach yn cael ei galw'n Dirwedd Genedlaethol), Ardaloedd Tirwedd Arbennig a Safleoedd Bywyd Gwylt yn ogystal â cheisio diogelu cymeriad y dirwedd yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys polisiâu sy'n mynd i'r afael â chadwraeth bioamrywiaeth ac amddiffyn yr arfordir.

Gofynion tystiolaeth

- 7.6.5 Mae'r Cyngor angen tystiolaeth wedi'i diweddarau i ddeall yr effaith y gallai cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel (gwynt a solar) ei chael ar y dirwedd.
- 7.6.6 Mae hefyd angen tystiolaeth ynghylch seilwaith gwyrdd a mannau agored wedi'i diweddarau i sicrhau bod polisiâu'n adlewyrchu'r polisi a'r canllawiau diweddaraf.
- 7.6.7 Ystyrir bod y polisiâu presennol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn perfformio'n effeithiol ar wahân i'r angen i gynnal adolygiad o derminoleg i

sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol. Mae'r un peth yn wir am bolisiâu mwynau.

7.7 Thema: Hyrwyddo Creu Lleoedd a Lles

Trosolwg

- 7.7.1 Creu lleoedd yw'r cydweithio ar draws sectorau a disgyblaethau i roi ystyriaeth gynhwysfawr i ddatblygu a siapia lleoedd bywiog unigryw yn y dyfodol¹. Mae creu lleoedd wedi dod yn fwyfwy pwysig wrth i'r cysylltiadau ag iechyd a lles gael eu harchwilio yn fwy penodol a'u deall.
- 7.7.2 Rhagwelir y bydd y CDLI newydd yn cynnwys polisiâu sy'n cefnogi mabwysiadu dull creu lleoedd o ddewis safleoedd ac yn ystyried maint a thwf ond hefyd dyluniad datblygiadau unigol. Ategir hyn gan bolisiâu sy'n mynd i'r afael â'r gofynion uniongyrchol i wella llesiant, e.e. drwy ddarparu seilwaith cymdeithasol neu wyrdd.

Cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol allweddol

- 7.7.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn mynnu bod creu lleoedd yn creu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn egnïol, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar. Yn y pen draw, dylai datblygu greu'r amodau i ddod â phobl at ei gilydd, gan wneud iddynt fod eisiau byw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd sydd ag ymdeimlad o le a llesiant, gan greu ffyniant i bawb.

Newidiadau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd bolisi llunio lle sy'n gofyn am ddylunio cynaliadwy a chynhwysol. Cefnogir hyn gan Ganllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ynys Môn ar ddylunio ar gyfer yr amgylchedd trefol a gwledig. Mae hyn yn cynnwys materion fel lleoliad safle, tirwedd, seilwaith, tir y cyhoedd a materion dylunio penodol. Rhagwelir y bydd dull gweithredu gweddol debyg ar gyfer creu lleoedd a dylunio yn cael ei ddefnyddio yn y CDLI newydd.

¹ [Creu Lleoedd | Comisiwn Dylunio Cymru](#)

Gofynion tystiolaeth

7.7.4 Gall y Cyngor ddiweddarau'r canllawiau dylunio presennol yn y Canllawiau Cynllunio Atodol i adlewyrchu anghenion ac ystyriaethau modern yn well, e.e. datblygiadau carbon isel.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- Ydych chi'n cytuno â'r themâu a ddewiswyd a chyflwyniad y polisiau yn ôl thema?
- A oes unrhyw bolisiau yn y CDLIC y dylid eu cadw yn y CDLI newydd?
- A oes unrhyw dystiolaeth ar goll?
- A oes unrhyw feysydd polisi ar goll?

Pennod 8

Senarios Twf Tai a Chyflogaeth

8.0 Cyflwyniad

